Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i ddiwygio *Coetiroedd i Gymru* Strategaeth Coetiroedd Cymru

Cyfnod ymgynghori 22 Orffenaf - 14 Hydref 2008

Adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i ddiwygio *Coetiroedd i Gymru*, Strategaeth Coetiroedd Cymru

1 Cyflwyniad

2 Ymatebion i'r ymgynghoriad

3 Dadansoddiad o'r ymgynghoriad a'r modd y mae wedi dylanwadu ar gynnwys y strategaeth ddiwygiedig

4 Cwestiynau'r Ymgynghoriad

5 Canlyniadau a chrynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau

5.1 Coetiroedd Cymru
5.2 Ymateb i Newid yn yr Hinsawdd
5.3 Coetiroedd i Bobl
5.4 Sector Coedwigoedd Cystadleuol, Integredig
5.5 Ansawdd Amgylcheddol
5.6 Cwestiynau Cyffredinol

6 Sylwadau cyffredinol

Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr

1 Cyflwyniad

Mae Coetiroedd i Gymru yn gosod allan strategaeth 50 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) ar gyfer coed a choetiroedd. Fe'i cyhoeddwyd yn gyntaf yn 2001 ac ers hynny mae sawl mater wedi dod i'r amlwg, fel cydnabod effaith bosibl newid yn yr hinsawdd a chyhoeddi polisïau newydd LlCC sydd wedi'i wneud yn ofynnol i'r strategaeth gael ei diweddaru.

Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i ddiwygio *Coetiroedd i Gymru* gan y Gweinidog Elin Jones ar 22 Gorffennaf ac fe ddaeth i ben ar 14 Hydref 2008. Rheolwyd yr ymgynghoriad gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC) ar ran LlCC.

Hysbysebwyd yr ymgynghoriad trwy erthyglau mewn papurau newydd cenedlaethol, cylchgronau arbenigol ac ar wefannau LlCC a CCC. Cafodd ei ledaenu ymhellach ar wefannau ac mewn cyhoeddiadau sefydliadau eraill. Cysylltwyd yn uniongyrchol â sefydliadau ac unigolion yn cynrychioli ystod eang o sectorau a buddiannau, gan gynnwys y diwydiant coed, cymunedau a'r amgylchedd i roi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad. Cafodd staff CCC eu gwahodd i gyfarfodydd sefydliadau a grwpiau a oedd â diddordeb i siarad am yr ymgynghoriad ac ateb unrhyw gwestiynau.

Roedd y papur ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar gael ar wefan CCC. Cawsant eu hanfon yn uniongyrchol mewn neges e-bost neu ar ffurf copi papur ar gais.

2 Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cafwyd 231 o ymatebion i gyd – mae rhestr o'r ymatebwyr i'w gweld yn **Atodiad 1**.

Roedd 127 o'r ymatebwyr yn cynrychioli grwpiau a sefydliadau a chafodd 104 o'r ymatebwyr eu rhoi yn y categori "unigolion", lle nad oeddent wedi nodi'n wahanol. Mae'r tabl isod yn dangos ehangder yr ymatebion, gan gategoreiddio'r grwpiau a'r sefydliadau dan y sectorau cymdeithasol, amgylchedd a choedwigaeth. Mae'r categori "arall" yn cynrychioli ystod o ymatebwyr, megis Awdurdodau Unedol a sefydliadau Twristiaeth.

Sector Cymdeithasol	Sector Coedwigaeth	Sector Amgylcheddol	Arall	Ymatebion unigol
14	67	26	20	104

3 Dadansoddiad o'r ymgynghoriad a'r modd y mae wedi dylanwadu ar gynnwys y strategaeth ddiwygiedig

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar ffurf cwestiynau am gyfres o gynigion ar sut i gyflawni'r agenda wedi'i diweddaru ar gyfer coetiroedd a choed. Rhoddwyd y rhain mewn grwpiau dan 5 thema, sef; **Coetiroedd Cymru, Ymateb i Newid yn yr Hinsawdd, Coetiroedd i Bobl, Sector Coedwigaeth Cystadleuol ac Integredig** ac **Ansawdd Amgylcheddol**. Roedd cyfres o gwestiynau mwy cyffredinol a oedd yn rhoi'r cyfle i godi unrhyw faterion nad oeddent wedi'u cynnwys yn y cwestiynau. Rhoddwyd cyfle hefyd i ymatebwyr godi unrhyw faterion a rhoi sylwadau yn ymwneud â'r ymgynghoriad ei hun.

Arfarnwyd yr ymatebion i bob cwestiwn ar sail feintiol. Ystyriwyd yr holl sylwadau a rhoddir crynodeb o'r materion a godwyd a'r sylwadau a gafwyd ar gyfer pob cwestiwn ar y tudalennau dilynol.

Cefnogwyd bron pob un o'r cynigion a lle gwnaeth ymatebwyr roi sylwadau, codi materion neu fynegi pryderon, rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon, yn y rhan fwyaf o achosion, naill ai i addasu ein bwriadau neu i gynnig mesurau i sicrhau bod yr effaith yn cael ei lleihau. Mewn sawl achos, mynegwyd pryderon ynghylch yr iaith aneglur a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad; mae hyn wedi dylanwadu ar naws a chynnwys y strategaeth ddiwygiedig ac esboniwyd llawer o faterion.

Cafodd dau gynnig – Cwestiynau 1 a 2 - ymatebion pegynedig dros ben. Roedd y cwestiynau hyn yn ymwneud â'r cynnig i gynyddu amrywiaeth coetiroedd (C1) a symud tuag at Goedwigaeth Gorchudd Parhaus ar ystad y Cynulliad (C2). Ceir crynodeb isod o'r modd yr aethpwyd i'r afael â'r prif bryderon mewn perthynas â'r cwestiynau hyn yn y strategaeth ddiwygiedig.

Cafwyd nifer o sylwadau hefyd yn ymwneud â'r papur ymgynghori ei hun a'r broses ymgynghori. Bydd y rhain yn dylanwadu ar ymgynghoriadau cyhoeddus yn y dyfodol.

4 Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Rhoddwyd y cwestiynau mewn grwpiau dan themâu'r ymgynghoriad.

Coetiroedd Cymru

C 1. Rydym yn bwriadu ymdrin â'r galw ansicr ar goetiroedd Cymru yn y dyfodol (gan gynnwys newid yn yr hinsawdd) drwy gynyddu'r amrywiaeth o holl goetiroedd o ran rhywogaeth a tharddiad coed, strwythur clwstwr, math o reoli, cynhyrchion pren a bioamrywiaeth.

C 2. Rydym yn bwriadu defnyddio gorchudd parhaus fel dewis rheoli diofyn ar ystad goetiroedd y Cynulliad ac i annog yr ymagwedd hon drwy grantiau ar gyfer coetiroedd eraill.

C 3. Rydym yn bwriadu cynyddu'r gorchudd coetiroedd net yng Nghymru.

C 4. Rydym yn bwriadu defnyddio strwythur grant haenog i annog coetiroedd newydd mewn lleoliadau sy'n berthnasol i ganlyniadau strategaeth, ond i ganiatáu'r union leoliad gael ei arwain gan y farchnad yn y fframwaith hwn.

C 5. Rydym yn bwriadu pwyso a mesur p'un a fyddai newid yn y math o goetiroedd neu yn eu rheolaeth yn dod â mwy o fuddion, cyn cytuno ar ddatgoedwigo parhaol ar gyfer adfer cynefinoedd eraill neu am resymau tirwedd.

Ymateb i Newid yn yr Hinsawdd

C 6. Rydym yn bwriadu annog cynhyrchiant pren a thanwydd pren mewn coetiroedd a reolir yn gynaliadwy, fel y dull gorau o gynyddu'r carbon a gedwir mewn coetiroedd a chynhyrchion pren.

C 7. Rydym yn bwriadu parhau i gefnogi mentrau ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o bren fel ffordd o fynd i'r afael â'n polisïau carbon isel.

C 8. Rydym yn ystyried creu system lle bydd angen plannu cydadferol os dileer coetir yn barhaus at ddibenion datblygu.

C 9. Rydym yn bwriadu y bydd cwmpas y strategaeth yn cynnwys plannu coed mewn trefi i liniaru newid yn yr hinsawdd ac am resymau amgylcheddol ehangach.

C 10. Rydym yn ystyried cefnogi plannu newydd o goedwigaeth cylchdro byr neu goedlannau cylchdro byr i gynhyrchu ffibr pren ar gyfer tanwydd pren, lle bo galw lleol sefydledig.

Coetiroedd i Bobl

C 11. Rydym yn bwriadu annog ymagwedd fwy amrywiol tuag at gynnwys cymunedau mewn coetiroedd, yn enwedig ar ystad goetiroedd y Cynulliad.

C 12. Rydym yn bwriadu ehangu cwmpas coetiroedd ar gyfer dysgu o'i ganolbwynt cyfredol ar blant a chefnogi addysg i blant tuag at gynnwys dysgu gydol oes a datblygu sgiliau a hyfforddiant i oedolion.

C 13. Rydym yn bwriadu rhoi blaenoriaeth i ddatblygu cyfleoedd hamdden coetiroedd yn agos at ble mae pobl yn byw – yn enwedig mewn ardaloedd sydd â'r angen mwyaf o ran anghydraddoldebau iechyd.

C 14. Rydym yn bwriadu cefnogi datblygiad mentrau bychan a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n seiliedig ar goetiroedd.

Sector Coedwigaeth Cystadleuol ac Integredig

C 15 a - f. Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw'r canlynol o ran helpu'r sector coedwig ddatblygu mewn ymateb i'r adnodd coetir a dyfir gartref yn dod yn fwy amrywiol?

15 g – Beth arall allwn ni ei wneud i annog y sector i fanteisio ar y cyfleoedd newydd y bydd y cynnydd yn yr amrywiaeth yn eu cynnig?

C 16. Beth yw'r gweithdrefnau "tynnu" marchnata gorau a'r gweithdrefnau "gwthio" grant gorau, neu gyfuniad ohonynt, i gael mwy o goetiroedd dan reolaeth gynaliadwy a chynhyrchu mwy o gynnyrch pren defnyddiadwy?

C 17 a-e Beth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r prinder sgiliau yn y sector coedwigaeth, yn enwedig yn sgil sgiliau newydd y bydd eu hangen yn y dyfodol?

C 17f – Ym mha ffordd arall allwn ni fynd i'r afael â'r prinder sgiliau?

Ansawdd Amgylcheddol

C 18. Rydym o'r farn y byddai gwybodaeth fwy cywir am leoliad hen goetiroedd a hen goed yn ein galluogi i gynnig mwy o ddiogelwch iddynt.

C 19. Rydym yn cynnig gwella swyddogaeth ecolegol y dirwedd drwy dargedu'n hymdrechion ar rwydweithiau coetiroedd ffocal (ar gyfer rhywogaethau cyffredinol) a chraidd (ar gyfer rhywogaethau arbenigol).

C 21. Rydym yn bwriadu rheoli'r holl Blanhigfeydd ar Safleoedd Hen Goetiroedd yn unol â'r arweiniad adfer arfer gorau ar ystâd goetiroedd y Cynulliad ac annog yr ymagwedd hon trwy grantiau ar gyfer coetiroedd eraill.

C 22. Rydym yn bwriadu defnyddio plannu priodol ac wedi'i dargedu ar gyfer coetiroedd newydd er mwyn ceisio lleihau llygredd, erydu'r pridd a'r perygl llifogydd.

Cwestiynau Cyffredinol

C 23. a) Ym mhob pennod, pa effeithiau neu gyfaddawdau ydych chi o'r farn ein bod wedi'u hesgeuluso?

C 23 b) Rhwng y penodau, pa effeithiau neu gyfaddawdau ydych chi o'r farn ein bod wedi'u hesgeuluso?

C 24. a) Rydym yn bwriadu sicrhau lle bod ein strategaeth yn ymwneud â phobl, ei bod yn wirioneddol gynhwysol ac yn gynrychiadol o'r boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu. A allwch chi ragweld unrhyw ardaloedd lle y mae'n bosibl y bydd rhan benodol o'r boblogaeth dan anfantais annheg gan ein cynigion?

C 24 b) A allwch chi ragweld unrhyw ardaloedd lle y mae'n bosibl y bydd rhan benodol o'r boblogaeth dan anfantais annheg gan ein cynigion? Os gallwch, esboniwch os gwelwch yn dda.
C 24 c) Sut allem newid ein hargymhellion i fod yn decach?
C 25 Rhowch sylwadau ar unrhyw agwedd arall ar y cynigion nas cyfeiriwyd atynt uchod.
C 26. Arfarniad o'r broses ymgynghori ei hun.

5 Canlyniadau a chrynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau

Sylwch na roddodd yr holl ymatebwyr ateb i'r holl gynigion yn yr ymgynghoriad o reidrwydd, felly nid yw'r cyfanswm ar gyfer unrhyw gwestiwn yn adio i 231 (cyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd).

5.1 Coetiroedd Cymru

C 1. Rydym yn bwriadu ymdrin â'r galw ansicr ar goetiroedd Cymru yn y dyfodol (gan gynnwys newid yn yr hinsawdd) drwy gynyddu'r amrywiaeth o holl goetiroedd o ran rhywogaeth a tharddiad coed, strwythur clwstwr, math o reoli, cynhyrchion pren a bioamrywiaeth.

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Heb farn
Nifer yr ymatebion	58	53	47	40	1
%	29%	27%	24%	20%	1%

Ymateb pegynedig dros ben i'r cynnig hwn

Prif bryderon

- Mae angen mwy o eglurder ynghylch yr hyn a olygir gan amrywiaeth a chymysgedd a'r hyn y mae "amrywiaeth" yn ei olygu ar gyfer coetiroedd brodorol.
- Llawer o bryderon ynghylch y posibilrwydd o lai o gynhyrchedd a fforddiadwyedd.
- Pryderon ynghylch p'un a yw'r cynnig wir yn ymestyn i'r holl goetiroedd, gan gynnwys coetiroedd brodorol.
- Llawer o sylwadau bod rhaid i amcanion rheoli perchnogion ddod yn gyntaf.

Sut yr aethpwyd i'r afael â'r pryderon hyn yn y strategaeth:

- Rhoddwyd eglurhad o ystyr amrywiaeth.
- Caiff ei ddatgan y bydd cyfeintiau pren o ystad goetirol y Cynulliad yn cael eu cynnal yn fras yn ystod y tymor byr i ganolig.
- Trwy bennu amcan strategol clir er mwyn sicrhau y caiff y posibilrwydd o gynhyrchu pren cenedlaethol ei gynnal er gwaethaf unrhyw amrywiaeth gynyddol; trwy reoli mwy ar goetiroedd a chreu mwy o goetiroedd.
- Mae'r strategaeth yn cydnabod y bydd amcanion rheoli perchnogion unigol yn dod yn gyntaf, yn amodol ar ddeddfwriaeth.

Crynodeb o'r ymatebion

Yn gyffredinol, roedd y rheiny a oedd yn cytuno â'r cynnig yn dyfynnu cynaliadwyedd, bioamrywiaeth, buddion o ran tirwedd ac ati. Hefyd, rhoddwyd mwy o wydnwch yn erbyn plâu a chlwyfau fel rheswm penodol dros amrywiaethu.

Mynegwyd llawer o bryderon ynghylch yr effaith ar farchnadoedd a busnesau cyfredol, sy'n dibynnu ar gyflenwadau cyson sefydledig o gonifferau.

Dyfynnwyd gwerth y diwydiant pren yng Nghymru, ochr yn ochr ag amodau tyfu da a'r agosrwydd at farchnadoedd, fel rheswm dros gynnal cyflenwadau pren parhaus.

Rhoddwyd gwydnwch conifferau i newid yn yr hinsawdd a'u cyfraddau tyfu cynyddol disgwyliedig fel rheswm dros barhau i dyfu conifferau. Mae rhai'n dadlau bod rhywogaethau egsotig sy'n tyfu'n gyflym yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran addasu i'r newid yn yr hinsawdd na choed brodorol sy'n tyfu'n araf.

Crybwyllwyd costau a chymhlethdod rheoli cymysgeddau, gan arwain at lai o broffidioldeb.

Roedd rhai o'r farn bod llawer o amrywiaeth mewn coetiroedd yn barod.

Mae llawer i'w ddysgu am effaith newid yn yr hinsawdd o hyd. Efallai bod amrywiaeth er mwyn amrywiaeth yn fwy peryglus nag aros am dystiolaeth glir. Amser a ddengys – peidiwch â chyfaddawdu cynhyrchedd yn rhy gyflym.

Mae angen ystyried amrywiaeth ar lefel y dirwedd – edrych ar ardal gyfan ac nid fesul bloc. Mae angen cymryd amser i amrywiaethau a bod yn hyblyg gydag ymagwedd benodol i'r safle.

Ni ddylai amrywiaethu fod ar draul gweithgareddau coedwigaeth masnachol. Mae rhagdybiaeth y bydd y diwydiant yn addasu – ni fydd yn hawdd, hyd yn oed os yw'n bosibl.

Ni ddylai rhywogaethau a tharddiad coed gael eu hamrywiaethu mewn Coetiroedd Hynafol Lled-naturiol na Phlanhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol lle mae rhywogaethau hynafol yn bresennol.

Peidiwch â niweidio cynefinoedd prin neu bwysig a chynhaliwch ecosystemau swyddogaethol.

Mae cyfle i gynyddu amrywiaeth ar dir nad yw'n addas ar gyfer cynhyrchu masnachol.

Mae amrywiaethu yn fwy eang na gosod coed llydanddail yn lle conifferau – mae hefyd yn ymwneud ag ehangu'r sylfaen genetig.

C 2. Rydym yn bwriadu defnyddio gorchudd parhaus fel dewis rheoli diofyn ar ystad goetiroedd y Cynulliad ac i annog yr ymagwedd hon drwy grantiau ar gyfer coetiroedd eraill.

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**	**Heb farn**
Nifer yr ymatebion	36	56	30	75	4
%	18%	28%	15%	37%	2%

Ymateb pegynedig dros ben i'r cynnig hwn

Prif bryderon

- Roedd llawer o'r ymatebwyr yn erbyn y sefyllfa "ddiofyn"
- Roedd yn amlwg bod llawer o ddryswch ynghylch coedwigaeth gorchudd parhaus a systemau coedamaeth bach eu heffaith a'u diffiniadau a'u nodweddion, gyda llawer o wahanol ddehongliadau
- Roedd llawer o bryderon ynghylch llai o gynhyrchedd a fforddiadwyedd
- Llawer o sylwadau bod rhaid i amcanion rheoli perchnogion ddod yn gyntaf

Sut yr aethpwyd i'r afael â'r pryderon hyn yn y strategaeth:

- Nid yw'r gair "diofyn" yn cael ei ddefnyddio yn y strategaeth. Yn yr ymgynghoriad, roedd llawer o bobl yn credu bod "diofyn" yn golygu mai coedwigaeth gorchudd parhaus fydd y system reoli bob amser. Mae'r strategaeth ddiwygiedig yn ei gwneud yn glir na yw unrhyw systemau rheoli yn cael eu diystyru; bydd y system reoli yn briodol i'r safle a'r amodau. Fodd bynnag, y bwriad, dros amser, yw symud oddi wrth gwympglirio ar ystad goetiroedd y Cynulliad. Caiff hyn ei wneud dros sawl degawd a bod cwympglirio yn rhan o'r trawsffurfiad hwn. Yn y tymor byr i ganolig, caiff cyfeintiau pren sydd ar gael o ystad goetirol y Cynulliad eu cynnal yn fras, gan ragdybio na fydd yr ystad yn newid o ran ei maint a'i nodweddion presennol.

- Yn y strategaeth ddiwygiedig, diffiniwyd coedwigaeth gorchudd parhaus a systemau coedamaeth bach eu heffaith.
  Coedwigaeth gorchudd parhaus (CGP) – systemau coedamaeth lle mae canopi'r goedwig yn cael ei chynnal ar un lefel neu fwy heb gwympglirio. Mae coedwigaeth gorchudd parhaus yn un enghraifft yn unig o system goedamaeth fach ei heffaith.
  Systemau coedamaeth bach eu heffaith (LISS) - systemau coedamaeth sy'n ddewis arall i gwympglirio ac yn lleihau'r effaith amgylcheddol. Maent yn cynnwys ystod o systemau coedamaeth llai dwys, fel dethol grŵp neu gysgod y coed.

- Mae'r strategaeth yn ei gwneud yn glir bod y pwyslais ar gyflawni canlyniadau gan osgoi cwympglirio yn hytrach na mabwysiadu system goedamaeth rhy anhyblyg. Fe wnaed yn glir mai un dull yn unig o reoli coetiroedd yw CGP gan gael yr effaith negyddol leiaf posibl ar yr amgylchedd.

- Mae'r strategaeth ddiwygiedig yn ei gwneud yn glir bod cwympglirio fel offeryn i gyflawni newid coedamaeth yn y cylchdro nesaf yn strategaeth reoli ddilys.

- Mae'r strategaeth yn cydnabod y bydd amcanion rheoli perchnogion unigol yn dod yn gyntaf, yn amodol ar ddeddfwriaeth.

Crynodeb o'r ymatebion

Cydnabuwyd CGP gan lawer o ymatebwyr fel dull o gyflawni amrywiaeth a gwydnwch a chynhyrchu pren o ansawdd uchel.

Mynegodd llawer o ymatebwyr bryder nad yw CGP yn economaidd ymarferol ac y bydd yn cyfaddawdu cyflenwadau pren yn y dyfodol. Credwyd y byddai CGP yn ddrud i'w rheoli.

Mae CGP yn cael ei datblygu o hyd – nid oedd wedi dangos ei bod yn economaidd. Bydd angen datblygu rhagolygon cynnyrch. Mae angen mwy o dystiolaeth ymchwil.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn poeni ac nid oeddent am i hwn fod yn bolisi hollgynhwysfawr ar gyfer Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Nid oedd yn addas ar gyfer coedwigoedd ucheldirol yng Nghymru oherwydd y mathau o bridd, datguddiad a'r gwynt. Nid yw CGP yn ffafrio rhywogaethau sy'n mynnu golau, felly bydd yn anodd ei sefydlu trwy adfywio naturiol.

Mae gofyniad mawr o ran hyfforddiant ar gyfer cyflawni CGP. Mae prinder sgiliau rheoli yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru a'r sector ehangach.

Rhaid iddo fod yn briodol i'r safle.

A fyddai hyn yn groes i'r dymuniad am amrywiaeth (C1) gan y byddai'n ddull rheoli "hollgynhwysfawr"?

Bydd angen grantiau gwell ar y sector preifat ar gyfer rheoli CGP. Ond ni ddylai'r grantiau hyn fod ar draws grantiau ar gyfer coedwigaeth "traddodiadol".

Ni ddylai CGP niweidio cynefinoedd eraill.

Bydd yn anodd cyflawni CGP mewn coetiroedd llydanddail oherwydd y gwiwerod.

Bydd CGP yn galluogi poblogaethau ceirw gwyllt i gynyddu.

C 3. Rydym yn bwriadu cynyddu'r gorchudd coetiroedd net yng Nghymru

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**	**Heb farn**
Nifer yr ymatebion	151	51	4	3	3
%	71%	24%	2%	1%	1%

Cafodd y cynnig hwn lawer o gefnogaeth.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn oherwydd yr ystod o fuddion y byddai'n eu darparu.

Mae angen cynyddu gorchudd coetiroedd Cymru - dyfynnwyd cynhyrchu mwy o bren a chyflogaeth fel canlyniadau cadarnhaol. Awgrymwyd y dylai fod targed ar gyfer hyn.

Ni ddylai coetiroedd newydd niweidio safleoedd eraill sydd â nodweddion amgylcheddol ac archeolegol. Mae angen gwarchod cynefinoedd sensitif.

Holwyd o le y byddai'r tir newydd ar gyfer plannu yn dod. Pwysleisiwyd yr angen i reoli'r coetiroedd newydd hyn yn barhaus.

Roedd cystadlu am grantiau amaethyddol a phrisiau uchel tir yn cael eu hystyried yn rhwystrau rhag cynyddu gorchudd coetiroedd. Awgrymwyd ardaloedd diffaith a rhedyn fel y tir mwyaf addas i'w dargedu ar gyfer plannu coetiroedd newydd.

Dylid ystyried hyn ar lefel y dirwedd gyda strategaeth rheoli tir integredig.

Mae'n bwysig nad ydym yn colli golwg ar wella'r modd y mae coetiroedd presennol yn cael eu rheoli wrth ymdrechu i greu rhai newydd. Dylai grantiau fod yn ychwanegol ac ni ddylent leihau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer "coedwigaeth draddodiadol".

Enwyd gwiwerod llwyd fel y bygythiad mwyaf – yn enwedig i goed llydanddail.

Dylai plannu coed trefol gael ei annog, ond eto mae angen cyllid ar gyfer plannu'r coed hyn a'u rheoli'n barhaus.

C 4. Rydym yn bwriadu defnyddio strwythur grant haenog i annog coetiroedd newydd mewn lleoliadau sy'n berthnasol i ganlyniadau strategaeth, ond i ganiatáu'r union leoliad gael ei arwain gan y farchnad yn y fframwaith hwn

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**	**Heb farn**
Nifer yr ymatebion	35	91	40	6	20
%	18%	47%	21%	3%	10%

Cefnogwyd y cynnig hwn yn eang gan fwyafrif yr ymatebwyr, ond roedd lleiafrif sylweddol yn anghytuno neu heb farn.

Crynodeb o'r ymatebion

Beth fyddai'n newydd am y cynnig hwn? Onid yw grantiau'n ymwneud â lleoliadau a chanlyniadau ar hyn o bryd?

Gofynnodd sawl ymatebwr am eglurhad o "arwain gan y farchnad", gan nad oeddent am weld unrhyw wrthdaro os oedd yn golygu bod cynefinoedd â blaenoriaeth yn cael ei difrodi neu safleoedd amhriodol yn cael eu plannu.

Rhaid i grantiau fod yn ychwanegol ac ni ddylent gymryd lle grantiau ar gyfer rheoli coetiroedd presennol. Dylai rheoli coetiroedd presennol fod yn flaenoriaeth.

Rhaid ystyried coedwigaeth fasnachol yn gyfartal o fewn y strwythur grantiau.

Grantiau ar gyfer coetiroedd cynhyrchiol newydd - dylai hwn fod yn amcan craidd yn hytrach na chreu ardaloedd mawr o rywogaethau brodorol o werth isel. Gall amcanion amlbwrpas fod yn ganlyniadau o'r coetiroedd cynhyrchiol hyn.

O le fydd y tir ar gyfer y coetiroedd newydd yn dod? Bydd angen cyllid fel y bydd yn economaidd ymarferol i blannu coed gan y bydd angen i grantiau gystadlu â chymorthdaliadau amaethyddol. Os nad yw'n newid, y tir gwaelaf yn unig fydd ar gael – mae angen plannu tir gwell er mwyn cynyddu cynhyrchiant.

Bydd angen dealltwriaeth well o'r hyn sydd ei angen a ble y mae angen iddo fod i hyn weithio. Byddai cynllun gofodol yn hwyluso hyn. Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus wrth dynnu llinellau ar fapiau a chyfyngu grantiau i ardaloedd daearyddol. Nid oes eisiau cyfaddawdu cynlluniau da na'u rhoi dan anfantais oherwydd eu lleoliad daearyddol.

Rhaid i grantiau adlewyrchu canlyniadau ac adlewyrchu cost wirioneddol y gwaith e.e. bydd plannu a chynnal a chadw mewn trefi yn ddrytach.

Bydd angen i blannu fod yn briodol i'r safle – "y goeden iawn yn y lle iawn".

Rhaid i grantiau fod yn syml er mwyn cyflawni ac adlewyrchu cost wirioneddol y gwaith. Hefyd, dyllai grantiau ar gyfer ardaloedd bach gael eu symleiddio. Mae'n bosibl na fydd strwythurau grantiau mwy cymhleth yn cyflawni amcanion y polisi.

Dylai caniatáu mynediad cyhoeddus fod yn un o amodau cymorth grant ar gyfer coetiroedd newydd.

C 5. Rydym yn bwriadu pwyso a mesur p'un a fyddai newid yn y math o goetiroedd neu yn eu rheolaeth yn dod â mwy o fuddion, cyn cytuno ar ddatgoedwigo parhaol ar gyfer adfer cynefinoedd eraill neu am resymau tirwedd.

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**	**Heb farn**
Nifer yr ymatebion	77	102	6	5	7
%	39%	52%	3%	3%	4%

Cafodd y cynnig hwn lawer o gefnogaeth.

Crynodeb o'r ymatebion

Croesawyd y ffaith y byddai dewisiadau eraill yn cael eu hystyried cyn datgoedwigo – a allai gynnwys plannu mwy o goed.

Rhaid bod yn ofalus a rhoi rhesymau clir dros ddatgoedwigo, gan mai'r nod yw cynyddu'r gorchudd coetiroedd yng Nghymru.

Rhaid i'r cynefinoedd i'w hadfer fod yn brin.

Rhaid bod buddion gwyddonol i ddatgoedwigo y gellir eu dangos yn glir. Roedd angen meini prawf ac arweiniad er mwyn sicrhau bod datgoedwigo'n briodol

Rhaid pennu gwerth ar gyfer costau a buddion datgoedwigo yn gywir, gan gynnwys y gost o gynnal y cynefin agored newydd. Bydd angen grantiau rheoli tir.

Dylai'r broses benderfynu gynnwys corff allanol nad yw'n gysylltiedig â rheoli'r tir.

Bydd cyflawni amcanion NCT 8 ar gyfer ynni gwynt yn golygu y bydd angen cael gwared ar goetiroedd. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod rhaid plannu coed cydadferol yn eu lle.

Roedd ymatebwyr hefyd yn teimlo y dylai plannu cydadferol fod yn ofyniad os ceir gwared ar goetiroedd cynhyrchiol.

Mae angen diwygio'r Ddeddf Coedwigaeth yng Nghymru er mwyn sicrhau nad oes angen ailblannu gorfodol ar gyfer adfer cynefinoedd â blaenoriaeth.

Rhaid i ardaloedd sy'n cael eu plannu fel cydadferiad gadw'r hawliau mynediad a ganiatawyd mewn ardaloedd wedi'u datgoedwigo.

5.2 Ymateb i Newid yn yr Hinsawdd

C 6. Rydym yn bwriadu annog cynhyrchiant pren a thanwydd pren mewn coetiroedd a reolir yn gynaliadwy, fel y dull gorau o gynyddu'r carbon a gedwir mewn coetiroedd a chynhyrchion pren.

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**	**Heb farn**
Nifer yr ymatebion	112	75	6	0	4
%	57%	38%	3%	0%	2%

Cafodd y cynnig hwn lawer o gefnogaeth.

Crynodeb o'r ymatebion

Cydnabuwyd y byddai annog cynhyrchiant yn ddull effeithiol o reoli coedwigoedd nad ydynt yn cael eu rheoli'n ddigonol. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr fod peidio ag ymyrryd yn garbon niwtral ar y gorau.

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr mai coetiroedd coniffer wedi'u rheoli'n dda yw'r dull mwyaf effeithlon o gynhyrchu pren a storio carbon. Bydd pren o ansawdd gwell yn storio carbon am gyfnod hwy os caiff ei ddefnyddio ar gyfer adeiladu a dodrefn yn hytrach na choed tân a phaledi. Defnyddio pren yn lle concrid a dur yw'r dull orau o fynd i'r afael ag allyriadau carbon. Defnyddio - Ailddefnyddio - Ailgylchu - Llosgi.

Bydd angen rhywogaethau gwerthadwy priodol er mwyn annog mwy o ddefnydd o bren.

Ni ddylai bioamrywiaeth ddioddef wrth gyflawni hyn – dylid cadw pren marw a pheidio ag aflonyddu ar ffawna. Rhaid bod yn ofalus i beidio â chael gwared ar ormod o faetholion na cholli'r amddiffyniad ar gyfer priddoedd os yn ystyried cael gwared ar yr holl weddillion. Bydd angen rheolaeth sy'n benodol i'r safle.

Bydd angen datblygu marchnadoedd. Er enghraifft, i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer tanwydd coed, rhaid iddo fod ar gael i ddefnyddwyr bach (cartrefi). A all CCC wneud hyn gan y bydd angen sefydlu marchnadoedd a dulliau dosbarthu?

Ni ddylai'r carbon a ddefnyddir i reoli coetiroedd nad ydynt yn cael eu rheoli'n ddigonol fod yn fwy na'r buddion carbon y mae coetiroedd nad ydynt yn cael eu rheoli'n ddigonol yn eu darparu.

Os caiff y defnydd o fiomas ei annog, mae'n bosibl y bydd rhaid iddo gystadlu â chyflenwadau rhatach o dramor.

Byddai arferiad gwell o weddillion pren eraill yn cynyddu argaeledd biodanwyddau.

Codwyd amheuon ynghylch effaith defnyddio mwy o danwydd coed ar ansawdd yr aer. Hefyd, os yw pren yn cael ei losgi, rhaid ei ailblannu/adfywio i fod yn wirioneddol adnewyddadwy.

Bydd angen addysg a hyfforddiant er mwyn galluogi perchnogion i reoli coetiroedd.

Bydd defnyddio mwy o bren o Gymru yn lleihau "costau" carbon mewnforio o dramor.

C 7. Rydym yn bwriadu parhau i gefnogi mentrau ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o bren fel ffordd o fynd i'r afael â'n polisïau carbon isel.

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**	**Heb farn**
Nifer yr ymatebion	128	66	1	1	1
%	65%	34%	1%	1%	1%

Cafodd y cynnig hwn lawer o gefnogaeth.

Crynodeb o'r ymatebion

Dylai coetiroedd sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy fod yn amlbwrpas – gan ddarparu ystod o wasanaethau ecosystem. Ni ddylent fod yn storfa garbon yn unig.

Hyrwyddo pren ar gyfer adeiladu. Canolbwyntio ar gynhyrchion hirhoedlog sy'n cymryd lle dur, concrid ac ati.

Amlygodd sawl ymatebwr gyfraniad pwysig conifferau sy'n tyfu'n gyflym.

Gallai defnyddio pren fod yn ofyniad ar gyfer caniatâd cynllunio. Dylid pwysleisio manteision pren.

A ellir newid rheoliadau adeiladu er mwyn hyrwyddo mwy o ddefnydd o bren? Ar hyn o bryd, mae'r rheoliadau'n golygu na ellir defnyddio pren at rai dibenion adeiladu.

Mae angen hyrwyddo manteision pren.

Mae angen ysgogi prosiectau tanwydd coed ac annog y gwaith o sefydlu cynlluniau gwresogi lleol.

Dylid cydnabod ffermydd gwynt mewn lleoliadau coetirol fel dull o fynd i'r afael â pholisïau carbon isel.

Ni ddylai cyllid ar gyfer mentrau newydd dynnu cyllid ar gyfer rheoli coetiroedd presennol. Mae angen ffynonellau eraill.

Ni ddylid ailgyfeirio pren â gwerth masnachol i'r farchnad tanwydd coed.

Mae angen hyrwyddo tystysgrif UKWAS mwy gan ddod â mwy o bren o goetiroedd ardystiedig.

Dylai mentrau gefnogi busnesau cynaliadwy mwy.

Dylid annog y defnydd o danwydd coed, biomas a gweddillion cynaeafu. Dylai CCC hyrwyddo'r farchnad tanwydd coed.

Dylai LlCC arwain y ffordd, gan adeiladu adeiladau newydd y llywodraeth o bren a defnyddio pren neu fiomas i'w gwresogi.

Bydd annog mwy o bobl i ddefnyddio pren o Gymru yn lleihau'r "gost" carbon o'i fewnforio o dramor.

C 8. Rydym yn ystyried creu system lle bydd angen plannu cydadferol os dileer coetir yn barhau at ddibenion datblygu.

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**	**Heb farn**
Nifer yr ymatebion	121	54	11	5	8
%	61%	27%	6%	3%	4%

Cafodd y cynnig hwn lawer o gefnogaeth.

Crynodeb o'r ymatebion

Mae'r canlyniad hwn yn ffitio'n well yn yr adran *Coetiroedd Cymru* – nid *Newid yn yr Hinsawdd*.

Mae cefnogaeth gref i'r canlyniad hwn gan yr ymatebwyr. Gan mai un o amcanion y strategaeth yw cynyddu'r gorchudd coetiroedd, cydnabuwyd pwysigrwydd cynnal a chadw'r hyn sydd yno'n barod.

Amlygwyd y ffaith bod sawl gwahanol ffordd o liniaru newid yn yr hinsawdd mewn datblygiadau, ac nid trwy ailblannu coed sy'n cael eu tynnu yn unig.

Dylid defnyddio plannu cydadferol yn niffyg dim arall – dylai coed gael eu cadw lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Ni ddylai plannu cydadferol wanhau'r gwaith o amddiffyn coetiroedd rhag datblygiadau sy'n bodoli eisoes.

Pwy fydd yn berchen ar y coetiroedd ac yn eu rheoli ac o ble daw'r arian i dalu amdanynt?

O ble daw'r tir ar gyfer plannu? A ellir defnyddio safleoedd tir llwyd? A allant gynnwys gwrychoedd a choed ar y stryd?

Dylai'r plannu cydadferol fod cystal neu'n well na'r coetiroedd sy'n cael eu dileu.

Mae angen ystyried a fyddai cynefinoedd nad ydynt yn goetiroedd yn fwy priodol. Hefyd, ni ddylai unrhyw blannu newydd beryglu cynefinoedd pwysig eraill.

Gallai'r gofyniad hwn gael effaith sylweddol ar ddatblygiadau ffermydd gwynt NCT 8.

Dylid amddiffyn coetiroedd hynafol. Ni ddylai lefel yr amddiffyniad leihau er mwyn caniatáu datblygiadau.

Mae'n werth chweil os gellir ei gyflawni – ond mae angen i LlCC fod yn ofalus nad yw'n annog pobl i beidio â datblygu os nad yw plannu cydadferol yn bosibl.

Dylid ei ddiwygio i ddarllen "coed a choetiroedd". Mae plannu cydadferol yn aml yn amodiad wrth gynllunio, ond byddai polisi cenedlaethol i ategu at hyn yn fuddiol.

Dylai unrhyw hawliau mynediad sy'n cael eu colli yn yr ardaloedd sy'n cael eu torri i lawr gael eu trosglwyddo i'r coetiroedd cydadferol hyn.

C 9. Rydym yn bwriadu y bydd cwmpas y strategaeth yn cynnwys plannu coed mewn trefi i liniaru newid yn yr hinsawdd ac am resymau amgylcheddol ehangach.

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**	**Heb farn**
Nifer yr ymatebion	86	97	6	4	4
%	44%	49%	3%	2%	2%

Cafodd y cynnig hwn lawer o gefnogaeth.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno ac yn cydnabod y manteision – fodd bynnag, mae pryder ynghylch perchnogaeth a chynnal a chadw yn y dyfodol.

Mynegwyd pryderon ynghylch addasrwydd safleoedd a'r dewis o rywogaethau, gan ystyried effeithiau niweidiol posibl coed.

Bydd angen ymgysylltiad Awdurdodau Unedol er mwyn i hyn lwyddo.

Gellir defnyddio deilliannau coed trefol ar gyfer gwres.

Ni ddylai ariannu hyn fod ar draul cymorth grant yn y sector coedwigaeth. Byddai angen cydlynu ffynonellau ariannu eraill.

Ni ddylai coed beryglu rhywogaethau a chynefinoedd eraill.

C 10. Rydym yn ystyried cefnogi plannu newydd o goedwigaeth cylchdro byr neu goedlannau cylchdro byr i gynhyrchu ffibr pren ar gyfer tanwydd pren, lle bo galw lleol sefydledig.

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**	**Heb farn**
Nifer yr ymatebion	44	105	24	12	10
%	23%	54%	12%	6%	5%

Cafodd y cynnig hwn lawer o gefnogaeth.

Crynodeb o'r ymatebion

Amlygodd llawer o ymatebwyr y ffaith fod COEDWIGAETH CYLCHDRO BYR a CHOEDLANNAU CYLCHDRO BYR yn wahanol iawn. Roedd rhywfaint o ddryswch gan fod rhai'n ystyried COEDLANNAU CYLCHDRO BYR yn ddull traddodiadol o reoli coetiroedd, tra bo eraill yn eu hystyried yn amaethyddol eu natur.

Roedd ymatebwyr am fanteisio i'r eithaf ar goetiroedd ac, yn gyffredinol, roeddent yn teimlo na ddylid defnyddio tir sy'n gallu tyfu pren ar gyfer COEDLANNAU CYLCHDRO BYR na CHOEDWIGAETH CYLCHDRO BYR.

O ble mae'r tir ar gyfer hyn yn dod? A fydd yn cystadlu ag amaethyddiaeth a safleoedd ar gyfer tyfu bwyd?

Yn hytrach na phlannu coed newydd, gwnaed llawer o awgrymiadau eraill fel gwneud defnydd gwell o goetiroedd presennol - coetiroedd fferm yn arbennig. Bydd rheoli'r coetiroedd sydd gennym eisoes yn well yn darparu cynhyrchion tebyg.

Ni ddylai'r grantiau ar gyfer hyn fod ar draul coedwigaeth draddodiadol.

Bydd angen marchnadoedd ar gyfer y cynhyrchion hyn – a ydynt wedi'u datblygu? Bydd angen sefydlu cadwyni cyflenwi.

Gallai defnydd gwell o docio coed o goedwigaeth fasnachol ddarparu cyflenwad o danwydd.

Mae COEDLANNAU CYLCHDRO BYR o natur amaethyddol – a dyllai'r Adran Amaethyddiaeth ymdrin â hyn?

Efallai y bydd tyfu rhywogaethau sy'n tyfu'n gyflym mewn coetiroedd presennol yn fwy effeithiol na chreu rhai newydd.

Peidiwch â difrodi cynefinoedd a bioamrywiaeth arall er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn.

Os yw'n arwain at ungnwd, bydd hyn yn groes i'r amcan "amrywiaeth".

Gallai ddarparu ffynhonnell arall o incwm i ffermwyr.

Bydd angen i LlCC gefnogi cynlluniau newydd a datblygu'r farchnad.

Bydd coed trefol yn cyfrannu at ddatblygu Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau).

5.3 Coetiroedd i Bobl

C 11. Rydym yn bwriadu annog ymagwedd fwy amrywiol tuag at gynnwys cymunedau mewn coetiroedd, yn enwedig ar ystad goetiroedd y Cynulliad.

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**	**Heb farn**
Nifer yr ymatebion	68	90	27	2	13
%	34%	45%	14%	1%	7%

Cafodd y cynnig hwn lawer o gefnogaeth.

Crynodeb o'r ymatebion

Cafodd y cynnig hwn ei groesawu, yn gyffredinol. Roedd cynnwys cymunedau yn cael ei ystyried yn ddull o ddatblygu perchnogaeth cymunedau o goetiroedd lleol. Byddai hefyd yn addysgu pobl am fuddion coetiroedd.

Roedd perchnogion coetiroedd preifat yn poeni y byddai cynnwys y gymuned yn fwy mewn coetiroedd yn peryglu'r gwaith o'u rheoli. Roedd pryder ynghylch y cyllid – byddai angen cymorth grant gwell yn y sector preifat.

Cafwyd ymatebion am lefel y cynhwysiad – rhoi rhai am roi'r cyfle i bobl leol fod yn gyfrifol am reoli coedwigoedd lleol yn uniongyrchol. Awgrymwyd y byddai buddsoddiad ariannol mewn unrhyw brosiect yn cynyddu'r ymroddiad a'r gwerth i grwpiau cymunedol.

Cynigiwyd llawer o awgrymiadau ar gyfer cynnwys pobl leol, megis cyfleoedd i gasglu coed tân, gwaith gwirfoddol a gweithgareddau celf.

Gall cynyddu mynediad ddifrodi'r amgylchedd a chynefinoedd.

Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod hyn yn fwy priodol mewn ardaloedd trefol.

Byddai angen mynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae cynnwys y gymuned yn gofyn llawer o amser – bydd angen cyllid ychwanegol. Bydd angen mwy o adnoddau ar CCC i wneud mwy o hyn.

C 12. Rydym yn bwriadu ehangu cwmpas coetiroedd ar gyfer dysgu o'i ganolbwynt cyfredol ar blant a chefnogi addysg i blant tuag at gynnwys dysgu gydol oes a datblygu sgiliau a hyfforddiant i oedolion.

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Heb farn
Nifer yr ymatebion	82	104	6	2	5
%	41%	52%	3%	1%	3%

Cafodd y cynnig hwn lawer o gefnogaeth.

Crynodeb o'r ymatebion

Yn gyffredinol, canolbwyntiodd yr ymatebwyr ar yr agwedd *addysg* i bobl ifanc.

Roedd rhai pryderon ynghylch y difrod y byddai mwy o ddefnydd yn ei chael ar yr amgylchedd.

O ble daw'r cyllid ar gyfer y canlyniad hwn?

Enwyd Menter Addysg y Coed fel enghraifft dda. Awgrymwyd mwy o gyllid ar gyfer Ysgolion y Goedwig.

Ystyriwyd addysg fel dull o gynyddu'r galw am gynhyrchion pren ac o godi ymwybyddiaeth o fuddion ehangach coed a choetiroedd. Byddai hefyd yn cynyddu dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoli coetiroedd.

Awgrymwyd ystod o ddulliau ar gyfer gwella addysg, gan gynnwys gwaith gwirfoddol a phrofiad gwaith.

Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y gallai addysgu pobl ifanc ennyn eu diddordeb yn y sector, a allai gael effaith gadarnhaol ar leihau'r prinder sgiliau yn y dyfodol.

C 13. Rydym yn bwriadu rhoi blaenoriaeth i ddatblygu cyfleoedd hamdden coetiroedd yn agos at ble mae pobl yn byw – yn enwedig mewn ardaloedd sydd â'r angen mwyaf o ran anghydraddoldebau iechyd.

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Heb farn
Nifer yr ymatebion	51	110	29	3	5
%	26%	56%	15%	2%	3%

Cafodd y cynnig hwn lawer o gefnogaeth.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd amgyffrediad cyffredinol bod targedu iechyd a chydraddoldeb wedi'i anelu at ardaloedd trefol ac y byddai ardaloedd gwledig yn colli allan.

Roedd rhai o'r farn y dylai cyfleoedd fod ar gael i bob cymuned a phobl o bob gallu, nid y rheiny sydd â'r angen mwyaf yn unig.

Byddai twristiaeth yn dioddef pe byddai cyfleoedd hamdden yn cael eu targedu at yr ardaloedd hyn. Mae twristiaeth yn ffynhonnell bwysig o incwm yng Nghymru.

Bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Amlygwyd pwysigrwydd sicrhau bod cyfleusterau hamdden mewn coetiroedd yn hawdd eu cyrraedd o lwybrau cludiant cyhoeddus neu o fewn pellter cerdded/beicio.

Unwaith eto, mynegwyd yr angen i warchod yr amgylchedd os bydd coetiroedd yn cael eu defnyddio mwy.

Crybwyllwyd effaith mwy o sŵn, gyrru beiciau modur oddi ar y ffordd a gweithgareddau gwrthgymdeithasol – bydd angen rheoli hyn.

Rhaid i gyfleusterau a mentrau fod yn hirdymor ac yn llawn adnoddau fel nad ydynt yn dod yn dir dadlwytho ac yn mynd yn adfail.

Ymgynghori â phobl leol a'u cynnwys yn y gwaith o reoli er mwyn creu'r cyfleusterau cywir – bydd hyn yn ffurfio sail ar gyfer cynaliadwyedd.

C 14. Rydym yn bwriadu cefnogi datblygiad mentrau bychan a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n seiliedig ar goetiroedd.

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**	**Heb farn**
Nifer yr ymatebion	77	106	5	2	4
%	40%	55%	3%	1%	2%

Cafodd y cynnig hwn lawer o gefnogaeth.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn credu bod hyn yn ymwneud â'r sector pren yn unig yn hytrach nag yn cwmpasu'r holl ddulliau posibl o ddefnyddio coetiroedd.

Byddai angen i fusnesau fod yn gynaliadwy a byddai angen arfarnu'r costau a'r manteision. Mae busnesau bach a rhai sy'n dod i'r amlwg yn bwysig, ond dylid canolbwyntio cefnogaeth ar fusnesau a fydd yn goroesi. Mae arloesed, ymroddiad a hanes da yn bwysig.

Dylai cymorth fod ar gael i bob busnes – nid rhai bach a rhai sy'n dod i'r amlwg yn unig. Ni ddylai cyllid gyfaddawdu busnesau presennol sydd wedi datblygu.

Yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer y cynnig hwn, awgrymwyd y gallai cefnogi mentrau mwy arwain at gyflawni targedau, fel mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mae angen symleiddio'r modd y mae cyllid a grantiau'n cael eu gweinyddu. Mae angen grantiau ar gyfer cyfalaf sefydlu, hyfforddiant ac offer.

Byddai darparu a hyrwyddo cymorth gweinyddol/marchnata/datblygu cynnyrch yn ddull o gymorth.

Peidiwch â dargyfeirio cyllid oddi wrth weithgareddau coetirol craidd.

Bydd angen daliadaeth ddiogel ar entrepreneuriaid os ydynt yn defnyddio / gweithio mewn coetiroedd. Hefyd, bydd angen i gyflenwadau deunyddiau fod yn sicr.

Ewch i'r afael â'r problemau sy'n ymwneud â chael caniatâd cynllunio ar gyfer busnesau sydd wedi'u lleol mewn coetiroedd.

Cefnogwch fusnesau sy'n defnyddio pren o ffynonellau cynaliadwy. Dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd ac ati ddangos cefnogaeth trwy brynu nwyddau gan fusnesau lleol.

5.4 Sector Coedwigaeth Cystadleuol ac Integredig

C 15 a - f. Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw'r canlynol o ran helpu'r sector coedwig ddatblygu mewn ymateb i'r adnodd coetir a dyfir gartref yn dod yn fwy amrywiol?

15			Ddim yn bwysig o gwbl	Ddim yn bwysig iawn	Pwysig	Pwysig iawn		SGÔR CYMEDRIG
15a	Cefnogi arloesi cynhyrchion	Nifer	3	13	93	80		3.3
		%	2%	7%	49%	42%		
15b	Hyrwyddo'r defnydd o bren	Nifer	0	4	68	117		3.6
		%	0%	2%	36%	62%		
15c	Gwybodaeth gywir am ansawdd a maint y pren y gellir ei ddefnyddio	Nifer	0	11	81	97		3.5
		%	0%	6%	43%	51%		
15d	Cefnogi datblygu marchnadoedd	Nifer	1	10	115	62		3.3
		%	1%	5%	61%	33%		
15e	Grantiau ar gyfer buddsoddi cyfalaf	Nifer	3	13	96	77		3.3
		%	2%	7%	51%	41%		
15f	Hwyluso ardystiad UKWAS	Nifer	13	50	90	28		2.7
		%	7%	28%	50%	15%		

15 g – Beth arall allwn ni ei wneud i annog y sector i fanteisio ar y cyfleoedd newydd y bydd y cynnydd yn yr amrywiaeth yn eu cynnig?

Crynodeb o'r ymatebion

Trefnu bod mwy o hyfforddiant ar gael a mwy o gyllid ar ei gyfer. Bydd coetiroedd mwy amrywiol angen mwy o bobl i'w rheoli ac i ymgymryd â gweithrediadau'r goedwig.

Tyfu'r hyn sydd ei eisiau ar y farchnad.

Gallai newid systemau rheoli presennol ac amrywiaeth fygwth cyflenwadau pren.

Bydd angen datblygu marchnadoedd. Bydd angen datblygu cadwyni cyflenwi.

Ni fydd ansawdd y pren caled sy'n cael ei dyfu yng Nghymru cystal ag ansawdd pren caled sy'n cael ei dyfu mewn mannau eraill - ni all pren o Gymru gystadlu.

Symleiddio cynlluniau grant.

Integreiddio ardystiad UKWAS yng *Nghoetiroedd Gwell i Gymru* – neu gynnig grantiau i berchnogion gael yr ardystiad.

Darparu grantiau ar gyfer gwneud y newidiadau i addasu ar gyfer amrywiaeth.

Addysgu'r cyhoedd i ddefnyddio pren.

Darparu rhagolygon cynhyrchu ar gyfer Coedwigaeth Gorchudd Parhaus.

Mynd i'r afael â'r cyfyngiadau y mae rheoliadau adeiladu yn eu creu trwy ganiatáu defnydd ehangach o bren cartref wrth adeiladu.

Gwnaeth nifer o'r ymatebwyr sylwadau bod rhagdybiaeth bod mwy o amrywiaeth yn anochel.

Gofynnodd sawl ymatebwr beth oedd wedi digwydd i *"Cymru fel lleoliad ar gyfer rhai o'r diwydiannau coedwig gorau yn y byd "* – thema o strategaeth 2001.

C 16. Beth yw'r gweithdrefnau "tynnu" marchnata gorau a'r gweithdrefnau "gwthio" grant gorau, neu gyfuniad ohonynt, i gael mwy o goetiroedd dan reolaeth gynaliadwy a chynhyrchu mwy o gynnyrch pren defnyddiadwy?

Crynodeb o'r ymatebion

Tynnu:

Cynigiodd nifer o'r ymatebwyr hyrwyddo a datblygu'r defnydd o bren a marchnadoedd.

Nododd nifer o'r ymatebwyr bwysigrwydd LlCC ac Awdurdodau Lleol yn annog y defnydd o bren trwy osod esiampl.

Byddai angen gwella addysg o hyfforddiant a ran codi ymwybyddiaeth o bren a sut i'w ddefnyddio.

Prisiau pren uchel.

Gwella'r marchnadoedd ar gyfer pren a marchnad sefydlog.

Mynegodd llawer o'r ymgyngoreion y farn y bydd tyfu cyflenwadau hirdymor rheolaidd o'r hyn sydd ei eisiau ar y farchnad (gyda rhagolygon cynhyrchu cywir) yn annog defnyddwyr a chynhyrchwyr/contractwyr cynaeafu i fuddsoddi mewn offer.

Annog melinau i ddefnyddio pren ardystiedig.

Bydd angen marchnad amrywiol ar goetiroedd amrywiol – grantiau datblygu e.e. tai pren, gan ddatblygu isadeiledd ac amodau cynllunio priodol.

Creu cynllun masnachu carbon ar gyfer coedwigo a choetiroedd presennol.

Helpu sefydliadau fel Tanwydd Pren Cymru i godi ymwybyddiaeth o fanteision y defnydd glân ac effeithlon o danwydd pren.

Er mwyn annog ffermwyr, mae angen ystyried rheoli coetiroedd fferm fel rhan o'r adolygiad Echel 2.

Gwthio:

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr mai grantiau a chymorthdaliadau i ariannu cynaeafu, rheoli a datblygu nwyddau oedd y dulliau gorau.

Bydd angen grantiau i hwyluso newid – e.e. i ariannu teneuo aneconomaidd.

Cymorth grant ar gyfer prosiectau bach a chanolig megis tanwydd pren – er mwyn sbarduno'r farchnad.

Grantiau i ddatblygu marchnata ac addysg ar gyfer perchnogion coetiroedd bach.

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am i *Coetiroedd Gwell i Gymru* gan ei hadolygu a/neu ei hamnewid am system symlach.

Awgrymwyd grantiau er mwyn annog pobl i ddefnyddio pren cartref.

Gofynnwyd am gymorth grant i gydlynu cynhyrchiant gan gynhyrchwyr pren llai i ddod â chyflenwadau at ei gilydd a galluogi prynwyr i ddod o hyd i bren lleol.

Datrys y gwrthdrawiad gyda'r Taliad Sengl.

Gofynnwyd am fwy o gyhoeddusrwydd ar gyfer grantiau – yn enwedig ar gyfer ffermwyr.

Cymorth ar gyfer UKWAS ac annog perchnogion i'w chael.

Cyfuniad:

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn ffafrio cyfuniad o ddulliau tynnu a gwthio.

Materion:

Byddai angen bod yn ofalus nad yw arferion rheoli anghynaliadwy yn perygl ecoleg coetiroedd.

Ni ddylai cymorth grant greu mwy o goetiroedd heb eu rheoli er mwyn cyrraedd y targed ar gyfer mwy o goetiroedd brodorol.

C 17 a-e Beth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r prinder sgiliau yn y sector coedwigaeth, yn enwedig yn sgil sgiliau newydd y bydd eu hangen yn y dyfodol?

17			Ddim yn effeithiol o gwbl	Ddim yn effeithiol iawn	Effeithiol	Effeithiol iawn	SGÔR CYMEDRIG
17a	Parhau i ddatblygu cyrsiau hyfforddi perthnasol er mwyn ateb gofynion cyflogwyr	Nifer	1	11	117	47	3.2
		%	1%	6%	66%	27%	
17b	Mwy o gontractau tymor hir ar gyfer contractwyr er mwyn annog cadw sgiliau a datblygu a buddsoddi mewn peiriannau newydd	Nifer	1	10	90	76	3.4
		%	1%	6%	51%	43%	
17c	Cefnogi'r ddarpariaeth o brentisiaethau modern ymarferol	Nifer	1	3	73	101	3.5
		%	1%	2%	41%	57%	
17d	Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa trwy Goetiroedd ar gyfer Dysgu	Nifer	0	59	86	27	2.8
		%	0%	34%	50%	16%	
17e	Gweithio gyda sefydliadau hyfforddi, y diwydiant ac eraill i ddatblygu llwybrau i gyflogaeth	Nifer	2	11	120	41	3.1
		%	1%	6%	69%	24%	

C 17f – Ym mha ffyrdd eraill allwn ni fynd i'r afael â'r prinder sgiliau?

Crynodeb o'r ymatebion

Bydd cyflogau uwch yn annog mwy o bobl i mewn i'r sector.

Cyllid a chymorthdaliadau ar gyfer hyfforddiant.

Creu swyddi a llwybr gyrfa diogel. Canolbwyntio ar gadw staff.

Creu cynlluniau prentisiaeth.

Mwy o gyflogaeth uniongyrchol gan CCC ac Awdurdodau Unedol – peidio â dibynnu ar gontractwyr i wneud y gwaith.

Addysg i godi ymwybyddiaeth o'r sector – i hyrwyddo coedwigaeth fel diwydiant.

Cynhyrchu pren o werth uchel i ddenu incwm er mwyn annog datblygu sgiliau.

Annog y defnydd o bren er mwyn cynyddu incwm i ddatblygu cyflogaeth yn y sector.

Darparu cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddiant yn y gwaith. Darparu mwy o hyfforddiant ar gyfer staff.

Rhaid i'r diwydiant a darparwyr hyfforddiant gydweithio â'i gilydd i ddarparu'r hyfforddiant cywir.

5.5 ANSAWDD AMGYLCHEDDOL

C18. Rydym o'r farn y byddai gwybodaeth fwy cywir am leoliad hen goetiroedd a hen goed yn ein galluogi i gynnig mwy o ddiogelwch iddynt.

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno' n gryf**	**Heb farn**
Nifer yr ymatebion	53	68	56	8	13
%	27%	34%	28%	4%	7%

Cefnogwyd y cynnig hwn yn eang gan fwyafrif yr ymatebwyr, ond roedd lleiafrif sylweddol yn anghytuno.

Crynodeb o'r ymatebion

Awgrymodd rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig hwn y dylai'r wybodaeth fod yn hygyrch e.e. ar y we. Dylai gynnwys gwrychoedd.

O'r rheiny a oedd yn anghytuno, roedd yn amlwg eu bod yn teimlo ein bod eisoes yn gwybod digon am y coed hyn ac y dylid canolbwyntio mwy ar wneud pethau ac edrych at y dyfodol – rheoli'r hyn sydd gennym yn well.

Roedd y wybodaeth am yr hyn sy'n cael ei ddiogelu eisoes yn amrywio - os caiff ei gynnwys yn y strategaeth, mae angen mwy o eglurhad.

Roedd sawl ymatebwr yn poeni y gallai rhoi cyhoeddusrwydd i hen goed ddenu sylw digroeso a fandaliaeth.

Byddai angen addysgu'r cyhoedd a thirfeddianwyr er mwyn sicrhau bod hyn yn gweithio. Mae angen codi ymwybyddiaeth o werth y coed a'r coetiroedd hyn.

Mae angen pwysleisio pwysigrwydd archeolegol y coetiroedd eu hunain.

Roedd nifer o'r ymatebwyr eisiau grantiau ar gyfer amddiffyn a chynnal a chadw'r coed a'r coetiroedd hyn. Yn enwedig mewn perthynas â diogelwch coed.

Byddai annog wardeiniaid gwirfoddol yn gweithio tuag at eu hamddiffyn. Awgrymwyd y dylai hen goetiroedd a hen goed cael eu hamddiffyn yn yr un modd ag adeiladau rhestredig.

Dylai torri hen goetiroedd fod yn anghyfreithlon. Dylid amlygu hen goed unigol mewn ceisiadau am drwyddedau torri coed. Dylai gwrychoedd gael eu cynnwys.

Awgrymodd sawl ymatebwr y dylai CC Cymru fod yn ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio.

C 19. Rydym yn cynnig gwella swyddogaeth ecolegol y dirwedd drwy dargedu'n hymdrechion ar rwydweithiau coetiroedd ffocal (ar gyfer rhywogaethau cyffredinol) a chraidd (ar gyfer rhywogaethau arbenigol).

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Heb farn
Nifer yr ymatebion	21	90	17	6	51
%	11%	49%	9%	3%	28%

Cefnogwyd y cynnig hwn yn eang gan fwyafrif yr ymatebwyr, ond roedd lleiafrif sylweddol yn anghytuno neu heb farn.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn nad oeddent naill ai'n deall y cwestiwn neu nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i'w ateb.

Roedd llawer o'r rheiny a oedd yn cytuno yn cydnabod y byddai hyn yn gwella cysylltedd cynefinoedd ac yn gwella bioamrywiaeth yn ehangach.

Fodd bynnag, ni ddylai'r cyllid i dalu ar gyfer hyn gael ei ddargyfeirio oddi wrth reoli coetiroedd presennol.

Hefyd, rhaid rhoi sylw i gynefinoedd nad ydynt yn goetiroedd wrth ystyried hyn.

Bydd angen gwneud penderfyniadau priodol ar y camau i'w cymryd (ymateb manwl iawn gan CCGC ar yr agwedd hon).

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig ond nid oeddent am iddo effeithio ar gynhyrchedd coetiroedd.

Dylai fod ymagwedd integredig tuag at hyn ar lefel tirwedd / dalgylch. Dylid cynnwys coetiroedd conifferaidd hefyd wrth greu cysylltedd.

Dylai hyn fod yn gysylltiedig â safleoedd ac ni ddylid gwneud penderfyniad yn dilyn ymarfer wrth y ddesg a arweiniodd at roi "llinellau ar fapiau".

Dylid ystyried hyn yng nghyd-destun yr adolygiad Echel 2.

C 20. Rydym yn bwriadu defnyddio Fforwm Rhywogaethau Anfrodorol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â pheryglon i goetiroedd fel gorbori (e.e ceirw, defaid) a rhywogaethau ymledol anfrodorol (e.e. y wiwer lwyd a rhododendron).

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Heb farn
Nifer yr ymatebion	38	94	11	9	38
%	20%	49%	6%	5%	20%

Cefnogwyd y cynnig hwn yn eang gan fwyafrif yr ymatebwyr, ond roedd lleiafrif sylweddol yn anghytuno neu heb farn.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd yr ymateb gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn datgan eu bod yn ystyried eu hunain yn grŵp cydlynu ac y byddent yn disgwyl i grwpiau eraill arwain y gwaith o fynd i'r afael â phroblemau ledled Cymru, fel rheoli'r y wiwer lwyd a rhododendron. Gwnaethant y sylw hefyd nad yw defaid yn gorbori yn rhan o'u cylch gwaith.

Amlygwyd y broblem o fynd i'r afael â'r wiwer lwyd gan lawer o ymatebwyr fel y mater pwysig i fynd i'r afael ag ef.

Roedd angen eglurhad o bwy yw'r Fforwm Rhywogaethau Anfrodorol a'u rôl yn y broses.

Ni fydd yn bosibl mynd i'r afael ag ystod mor eang o faterion trwy un dull e.e. dylai'r Fenter Ceirw fynd i'r afael â'r broblem benodol sy'n ymwneud â cheirw. Ni ddylai unrhyw waith gael ei ddyblygu.

Bydd angen cyllid i reoli'r bygythiadau hyn. O ble daw'r cyllid hwn?

Beth mae rhywogaethau anfrodorol yn ei olygu? Nid yw pob un ohonynt yn fygythiadau ac mae llawer ohonynt yn bwysig o ran esblygu'r dirwedd. Beth am newid yn yr hinsawdd a rhywogaethau anfrodorol?

Awgrymodd sawl ymatebwr mai CC Cymru sy'n gyfrifol am blâu mewn coedwigoedd a nhw ddylai arwain y gwaith.

Mae defaid a cheirw yn rhywogaethau brodorol.

C 21. Rydym yn bwriadu rheoli'r holl Blanhigfeydd ar Safleoedd Hen Goetiroedd yn unol â'r arweiniad adfer arfer gorau ar ystad goetiroedd y Cynulliad ac annog yr ymagwedd hon trwy grantiau ar gyfer coetiroedd eraill.

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**	**Heb farn**
Nifer yr ymatebion	69	86	25	16	7
%	34%	42%	12%	8%	3%

Cafodd y cynnig hwn lawer o gefnogaeth.

Crynodeb o'r ymatebion

Mynegwyd pryderon gan sawl ymatebwr y byddai cynhyrchedd yn lleihau ac y byddai coetiroedd mwy proffidiol yn colli gwerth wrth iddynt gael eu hadfer. Bydd hyn yn effeithio ar gynhyrchu pren yn y dyfodol.

Ni ddylai hyn fod ar draul cynhyrchu yn y diwydiant pren. Dylid ystyried yr effaith ar gynhyrchu pren yn y dyfodol. Adfer y safleoedd gorau yn unig. Dim ymagwedd hollgynhwysfawr, dim ond lle mae'n gweddu orau.

Sut y cyflawnir hyn? Beth yw'r arfer gorau? A osodwyd unrhyw safonau? A yw wedi'i gyhoeddi ac ymhle y mae ar gael?

Byddai angen bod yn ofalus ynghylch pa ardaloedd i'w hadfer – nid yw pob safle'n addas. Mae rhai'n fwy addas nag eraill – ni fydd yn bosibl adfer rhai ohonynt. Dylid adfer y rhai gorau. Rhaid i hon fod yn broses araf.

Bydd rheoli safleoedd sy'n cael eu hadfer yn hanfodol yn y dyfodol, neu fe allem greu coetiroedd heb reolaeth ar gyfer y dyfodol.

Bydd angen grantiau gwell ar y sector preifat.

Dywedodd sawl ymatebwr, os caiff ardal gynhyrchiol ei cholli o ganlyniad i'w hadfer, dylai fod angen plannu cydadferol.

Ni fydd adfer llawn yn briodol nac yn gyraeddadwy bob amser – fodd bynnag, bydd torri corun hen goed ar ei ben ei hun o fudd.

Gwnaeth nifer o'r ymatebwyr sylwadau ynghylch materion sy'n ymwneud â phlanhigfa benodol ar safle coetir hynafol (Coed Gwent) a'i rheolaeth gan CC Cymru.

C 22. Rydym yn bwriadu defnyddio plannu priodol ac wedi'i dargedu ar gyfer coetiroedd newydd er mwyn ceisio lleihau llygredd, erydu'r pridd a'r perygl llifogydd.

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**	**Heb farn**
Nifer yr ymatebion	95	89	4	1	5
%	49%	46%	2%	1%	3%

Cafodd y cynnig hwn lawer o gefnogaeth.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd ymateb mawr yn ymwneud ag annog ffermwyr i gymryd rhan mewn plannu coed. Ystyriwyd y byddai ardaloedd uwchdirol yn cael y budd mwyaf o'r plannu ychwanegol hwn. Y broblem fyddai sut i wneud i hyn ddigwydd. Bydd angen cyllid i gystadlu â grantiau amaethyddol.

Ni ddylai grantiau ar gyfer hyn dynnu cyllid oddi wrth reoli coetiroedd presennol. Awgrymodd sawl ymatebwr y dylai'r cyllid ddod oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd.

Bydd angen cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd wrth blannu coed mewn ardaloedd a dalgylch sydd mewn perygl o lifogydd a bydd angen i hyn fod yn gysylltiedig â chynlluniau strategol eraill er mwyn bod yn fuddiol. Bydd hyn yn mynnu ymagwedd integredig.

Mae angen dangos buddion y coetiroedd newydd hyn i'r cyhoedd ehangach.

Mynegodd nifer o'r ymatebwyr bryder mai coed llydanddail fyddai'r rhain yn bennaf ac nid conifferau mwy cynhyrchiol. Amlygwyd y ffaith y gall coetiroedd conifferaidd wedi'u rheoli gyflawni'r amcan hwn a darparu pren hefyd.

Roedd nifer o'r ymgyngoreion yn dadlau y bydd angen i unrhyw goetiroedd newydd fod o faint digonol i gael unrhyw effaith – roedd pob un ohonynt yn cyfeirio at goetiroedd conifferaidd.

Mae angen ystyried rheoli coetiroedd yn y dyfodol.

Mae angen bod yn ofalus i beidio â chael effaith negyddol ar ffactorau bioamrywiaeth ffafriol eraill na safleoedd archeolegol.

Mae angen mynd i'r afael â llygredd gan feiciau modur oddi ar y ffordd a cherbydau â gyriant pedair olwyn.

Gall gweithrediadau coedwigaeth eu hunain achosi erydu, llygredd a llifogydd.

Nododd un ymatebwr y byddai'n anodd lleihau llygredd trwy fynd i'r afael â phlannu wedi'i dargedu, trwy ddiffiniad.

5.6 Cwestiynau Cyffredinol

C 23. a) Ym mhob pennod, pa effeithiau neu gyfaddawdau ydych chi o'r farn ein bod wedi'u hesgeuluso?

Crynodeb o'r ymatebion

- **Coetiroedd Cymru**

Nid oes digon o bwyslais ar effaith gwiwerod llwyd.

Nid yw tirfeddianwyr yn hoffi pobl yn dweud wrthynt beth i'w wneud. Mae angen gweithredu'r newidiadau'n raddol a chadw atynt am 20 mlynedd.

Gwella CGG e.e. methu ag ymdopi â choedwigaeth gorchudd parhaus.

Mwy o gyfeirio at goedwigaeth gorchudd parhaus ar draws yr ymgynghoriad cyfan ac nid mewn perthynas ag un cwestiwn yn unig. Ni fu unrhyw sôn am y targed 50% ar gyfer coedwigaeth gorchudd parhaus a osodwyd yn Strategaeth Coetiroedd i Gymru 2001.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod disgwyl i goetiroedd fod yn ormod o bethau. Byddant yn anodd ac yn ddrud i'w rheoli. Gall coetiroedd conifferaidd gyflawni llawer o'r canlyniadau y mae'r strategaeth yn eu cynnig.

Nid oes unrhyw groesgyfeirio at UKWAS a sut y bydd CGG yn cysylltu â'r cynigion.

Ni ellir cyflawni unrhyw rai o amcanion y strategaeth yn y sector preifat oni bai y cynhelir conifferau.

Mae angen ystyried y gwahaniaethau ysgogol rhwng coetiroedd cyhoeddus a phreifat. Mae'n debyg nad yw'n bosibl eu trin gyda'i gilydd.

Awgrymwyd y gallai trosi i goedwigaeth gorchudd parhaus arwain at golli swyddi.

Er bod cwestiwn yn yr ymgynghoriad sy'n ymwneud â choedwigaeth gorchudd parhaus, nid oes unrhyw ganlyniad yn gysylltiedig ag ef. A ddylai fod canlyniad sy'n ymwneud â choedamaeth?

Canolbwyntiwch ar wella ansawdd a rheoli coetiroedd conifferaidd, yn hytrach na chanolbwyntio ar goed llydanddail brodorol.

- **Ymateb i Newid yn yr Hinsawdd**

Nid oes unrhyw gyfeiriad at ddefnyddio pren gwastraff.

Nid oes unrhyw sôn am ffermydd gwynt.

Mynegodd sawl ymatebwr fod tystiolaeth anghyflawn o effeithiau newid yn yr hinsawdd ac roeddent o'r farn bod gwendid mawr mewn ymagwedd 'newid polisi rhag ofn'.

Y ffordd orau o addasu coetiroedd ar gyfer y posibilrwydd o newid hirdymor yn yr hinsawdd yw sicrhau nad yw'r rhywogaethau a ddefnyddir ym mhen eithaf eu hamrediad daearyddol naturiol er mwyn eu galluogi i ymdopi ag unrhyw newid a allai ddigwydd.

- **Coetiroedd i Bobl**

Ni chydnabuwyd yr hyn y gall cymuned ei wneud i gynnig cefnogaeth ac amddiffyniad i goetiroedd lleol.

Tynnodd un ymatebwr sylw at y ffaith bod yr adran "Coetiroedd i Bobl" bellach yn cynnwys hamdden ac iechyd a lles, sy'n bynciau mawr eu hunain. Teimlwyd y dylid fod wedi rhoi mwy o sylw iddynt.

Crybwyllodd sawl ymatebwr y dylai gwella gallu grwpiau lleol i reoli coetiroedd CCC gael ei annog.

Nid yw elfen allweddol o'r strategaeth flaenorol, sef 'Darparu cyfleoedd i gymunedau roi eu barn am reoli coedwigaeth yn agos at ble maent yn byw' wedi'i throsi'n amcan yn y strategaeth newydd. Roedd hyn yn amryfusedd difrifol. Dylid adfer y polisi hwn ynghyd â darpariaeth sylweddol o staff a'r ewyllys i gynnwys cymunedau lleol mewn cynlluniau rheoli coedwigaeth – ac, os yw'r cymunedau'n fodlon – gweithredu. Mae'r canlyniad sy'n ymwneud â phobl yn gweithredu busnesau yn perthyn rhywle arall.

Dylai fod mwy o bwyslais ar alluogi dinasyddion preifat mewn grwpiau o bob rhan o'r gymuned, i ddefnyddio'r coetiroedd ar gyfer pa weithgaredd bynnag y maent yn dymuno (ac eithrio gyrru cerbydau â gyriant pedair olwyn a chynnau tanau!). Ni ddylai fod yn gyfres o "brosiectau" yn unig.

- **Sector Coedwigaeth Cystadleuol ac Integredig**

Dylai pwysigrwydd y diwydiant coedwigaeth presennol fod yn sylfaenol i bolisi'r llywodraeth.

Dim ond os oes budd economaidd y gellir cyflawni amcanion – mae hyn wedi'i esgeuluso.

Nid oes dadansoddiad economaidd o'r cynigion ac nid oes unrhyw sôn am y gost na chostau buddion na'r effaith ar swyddi. Mae angen rhoi mwy o sylw i effeithiau'r cynigion ar economeg coedwigaeth fasnachol. Roedd rhai o'r farn bod y costau i'r sector masnachol wedi'u hanwybyddu - pwy fydd yn talu am y newidiadau arfaethedig?

Ni aethpwyd i'r afael ag effeithiau economaidd coedwigaeth gorchudd parhaus dros goedwigoedd masnachol na'r effaith ar y diwydiant.

Ni ystyriwyd colled pren a'r effaith ar y sector ac ar gyflogaeth. Pam nad oes unrhyw beth am felinau llifio a'r swyddi y maent yn eu creu yng Nghymru wledig? Nid oedd unrhyw sôn chwaith am rannau eraill o'r sector a allai dioddef – fel cludiant.

Nid yw'r strategaeth yn cynnwys unrhyw gynigion i ymestyn y diwydiant coedwigaeth, heblaw cynyddu arwynebedd y coetiroedd.

Crybwyllodd a chwestiynodd sawl ymatebwr y ffaith na wnaeth yr adolygiad o CCC ffurfio rhan o'r adolygiad strategol hwn.

Nid oedd unrhyw sôn am ddefnyddio tir coedwig LlCC at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â choedwigoedd e.e. tai fforddiadwy a chynigion ar gyfer ffermydd gwynt NCT 8. Lle fyddai'r llifoedd incwm o'r defnyddiau hyn yn cael eu cyfeirio? A fydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i ariannu coedwigaeth yn uniongyrchol?

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at y ffaith bod yr amcan "Cymru fel lleoliad ar gyfer rhai o'r diwydiannau coedwigaeth gorau yn y byd", a oedd yn rhan o strategaeth 2001, wedi'i hepgor.

Nid oes unrhyw sôn am UKWAS na'i bwysigrwydd yn yr adran hon.

Ni thrafodir CGG a'i gyfraniad at gyflawni canlyniadau'r strategaeth.

Mae'r diagram cyfnewid (tudalen 32, pennod 5) yn rhoi manteision cadarnhaol rhywogaethau cynyddol ac amrywiaeth cynhyrchu, ansawdd a gwerth hirdymor pren. Nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiad hwn, ac ymddengys mai dymuniad yn unig ydyw. Nid yw'n sôn chwaith am y costau cynyddol a fydd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni unrhyw un o'r amcanion hyn, heb sôn am bob un ohonynt.

- **Ansawdd Amgylcheddol**

Roedd rhai o'r farn nad oedd digon o bwyslais ar gadw gwerth ecolegol coetiroedd a chynefinoedd nad ydynt yn goetiroedd - un o feini clo datblygu cynaliadwy.

Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol coetiroedd a'r modd y cânt eu cefnogi.

Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar y broblem asideiddio a'r effaith waethygu y mae gorchudd coedwigaeth (yn enwedig conifferau) yn ei chael mewn rhai dalgylchoedd. Sonnir am asideiddio unwaith "Mae asideiddio, erydiad pridd a chywasgiad hefyd yn fygythiadau parhaus". Dylid cyfeirio at sut yr eir i'r afael â hyn.

Nid yw'r strategaeth yn mynd i'r afael â'r peryglon sy'n cael eu hachosi gan ddefnyddio plaladdwyr mewn coedwigaeth yn ddigonol. Mae'n dweud "Mae arweiniad datblygedig ar sut i ddefnyddio cyn lleiaf o blaladdwyr â phosibl wrth reoli coetiroedd…".

Dylai fod mwy o ffocws ar effeithiau coedwigaeth ar ecoleg ddyfrol. Mae'r rhain yn cynnwys yr effeithiau ar hydroleg ac erydiad prif ac effeithiau canopi caeedig ar ecoleg nentydd. Mae'n syndod nad yw'r strategaeth yn argymell adolygu "Canllawiau Coedwigoedd a Dŵr".

- **Arall**

Nid oes fawr o ddadansoddiad o atebion posibl gan gyfeirio at ddulliau cyflawni.

Mynegwyd pryder bod coedwigaeth, gyda'i chyllideb fach, yn mynd i geisio cyflawni agenda enfawr gan gynnwys iechyd, addysg, y gymuned a'r amgylchedd, pan fo sefydliadau eraill gyda chyllidebau sylweddol fwy y dylai fod yn cefnogi'r buddion y gall coedwigaeth eu cyflawni yn y meysydd hyn.

C 23 b) Rhwng y penodau, pa effeithiau neu gyfaddawdau ydych chi o'r farn ein bod wedi'u hesgeuluso?

Crynodeb o'r ymatebion

- **Coetiroedd Cymru**

Nid oes digon o bwyslais ar effaith gwiwerod llwyd a cheirw.

Mae perygl o wneud pethau'n rhy gymhleth a fydd yn arwain ar berchnogion yn "cau'r drws". Mae angen canolbwyntio ar ystod o rywogaethau profedig sydd â marchnadoedd canfyddadwy a systemau rheoli cynhyrchiant hyblyg. Bydd gormod o amrywiaeth yn bygwth marchnadoedd ac incwm.

Nid yw tirfeddianwyr yn hoffi pobl yn dweud wrthynt beth i'w wneud. Mae angen gweithredu'r newidiadau'n raddol a chadw atynt am 20 mlynedd.

Pwysigrwydd coedwriaeth gadarn.

Bod rhaid i goetiroedd preifat fod yn ymarferol yn ariannol.

Mae angen syniad o'r costau er mwyn ystyried "Safon Aur" a gweld a yw'n ymarferol / cyraeddadwy yn economaidd. Mae angen syniad o'r cymorth grant sydd ar gael fel y gellir penderfynu p'un a i ddewis plannu newydd neu reoli coetiroedd presennol yn barhaus.

- **Ymateb i Newid yn yr Hinsawdd**

Mae angen dewis rhwng Pennod 3 a Phennod 6 – sut allwch chi gadw hen goetiroedd AC amrywio'r rhywogaethau a'u tarddiad er mwyn cynyddu gwydnwch i'r newid yn yr hinsawdd?

- **Coetiroedd i Bobl**

Mae angen pwysleisio cymaint y gall cymuned ei wneud i gefnogi ac amddiffyn coetiroedd lleol.

Nid yw anfanteision mynediad cyhoeddus yn cael eu gwerthfawrogi digon – fel fandaliaeth, troseddau bywyd gwyllt a thanau.

- **Sector Coedwigaeth Cystadleuol ac Integredig**

Unwaith eto, cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at y ffaith bod yr amcan "Cymru fel lleoliad ar gyfer rhai o'r diwydiannau coedwigaeth gorau yn y byd", a oedd yn rhan o strategaeth 2001, wedi'i hepgor.

Dylai pwysigrwydd y diwydiant coedwigaeth presennol fod yn sylfaenol i bolisi'r llywodraeth.

Dim ond os oes budd economaidd y gellir cyflawni amcanion – mae hyn wedi'i esgeuluso.

Mae angen cydnabod pren gwastraff, torbrennau o felinau llifio a gwastraff o waith cynnal a chadw coed ar ochr y ffordd fel ffynhonnell o danwydd.

Yn gyffredinol, roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd y diwydiant pren yn cael ei gynrychioli'n ddigonol.

Mae'n bwysig cydnabod bod "sector y goedwig" yn cynnwys ystod o ddiwydiannau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â choed, fel twristiaeth.

Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys digon o wybodaeth gadarnhaol am y diwydiant coedwigoedd yng Nghymru. Ni chydnabuwyd gwerth coedwigaeth conifferaidd masnachol. Mynegwyd pryder ynghylch effaith rhai o'r cynigion ar y diwydiant yn y dyfodol.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn poeni na roddwyd digon o sylw i faterion economaidd a chanlyniadau gweithredu coedwigaeth gorchudd parhaus i'r diwydiant. Roeddent yn poeni na ellir anwybyddu'r newidiadau posibl hyn i ffwrdd o'r pwyslais ar goedwigaeth fasnachol, ac y byddai hyn yn economaidd drychinebus i'r CC a'r diwydiant.

Byddai rhyw fath o ddatganiad o genhadaeth gan CCC yn cefnogi tyfwyr pren – yn hytrach na "sector coedwigaeth integredig" amhendant – yn cael ei groesawu.

- **Ansawdd Amgylcheddol**

Roedd pryder nad oedd digon o bwyslais ar gadw gwerth ecolegol coetiroedd a chynefinoedd nad ydynt yn goetiroedd.

Amlygwyd y posibilrwydd y gall diwydiannau coedwigaeth newydd greu llygredd.

Mae angen ystyried buddion ecolegol coedwigoedd conifferaidd - nid ffatrïoedd pren yn unig ydynt.

- **Coetiroedd Gwell i Gymru**

Rhoddodd nifer o'r ymatebwyr sylwadau am gynllun grant CGG. Fel prif ddarparwr y strategaeth yn y sector preifat, roeddent o'r farn y dylai fod yn symlach ac yn llai biwrocrataidd.

Teimlwyd ei fod yn gymhleth iawn ac yn gofyn amser ar gyfer ceisiadau bach. Mae'r strategaeth yn cydnabod rôl coetiroedd bach, nodweddion coed llinellol a choed unigol a threfol. Mae cynllun grant syml yn hanfodol ar gyfer cyflawni rheolaeth briodol – wedi'i weinyddu ar wahân i CGG efallai.

Ni roddodd y papur ymgynghori fawr o gydnabyddiaeth i rôl CGG o ran cyflawni amcanion strategol.

- **Comisiwn Coedwigaeth Cymru**

Holodd nifer o'r ymatebwyr pam nad oedd CCC yn cael ei adolygu ar yr un pryd. Roedd rhai yn cwestiynu ei rôl ddeublyg fel rheolwyr a rheolyddion coetiroedd.

- **Ffermydd Gwynt**

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr pam na chrybwyllwyd ffermydd gwynt yn y papur ymgynghori. Yn enwedig gan fod coetiroedd CCC i fod yn safleoedd datblygu.

- **Arall:**

Nid yw gwir natur rheolaeth goetirol amlbwrpas wedi'i deall, gan fod gan benodau unigol wahanol amcanion rheoli.

A allai'r gwaith o reoli coetiroedd gael ei gydlynu? Ymagwedd gyfunol yn cynnwys mwy nag un perchennog.

Mae gan Gynulliad Cymru a'i ymgynghorwyr, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, ystod eang o wybodaeth a data am yr adnodd coedwigoedd yng Nghymru. Nid oes llawer o dystiolaeth yn y ddogfen ymgynghori fod y wybodaeth hon wedi'i defnyddio i ddadansoddi canlyniadau'r cynigion drafft. Er hynny, rydym ar ddeall bod y Cynulliad yn bwriadu symud yn gyflym o'r ymgynghoriad i gyhoeddi'r strategaeth hon ar ddechrau 2009. Mae pryder ynghylch y ffaith nad yw'r cynigion manwl yn y ddogfen hon wedi'u dadansoddi'n economaidd a bod y pwyslais ar brosesau yn hytrach na chanlyniadau.

C 24. a) Rydym yn bwriadu sicrhau lle bod ein strategaeth yn ymwneud â phobl, ei bod yn wirioneddol gynhwysol ac yn gynrychiadol o'r boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu. A allwch chi ragweld unrhyw ardaloedd lle y mae'n bosibl y bydd rhan benodol o'r boblogaeth dan anfantais annheg gan ein cynigion?

	Gallaf	**Na allaf**	**Ddim yn siŵr**
Nifer yr ymatebion	75	45	36
%	48%	29%	23%

Roedd tua hanner yr ymatebwyr o'r farn bod ymgynghoriad y strategaeth wedi rhoi rhannau o'r boblogaeth dan anfantais. Mae'r ymatebion wedi'u crynhoi isod yn ôl sectorau'r boblogaeth yr effeithir arnynt.

C 24 b) A allwch chi ragweld unrhyw ardaloedd lle y mae'n bosibl y bydd rhan benodol o'r boblogaeth dan anfantais annheg gan ein cynigion?
C 24 c) Sut allem ni newid ein hargymhellion i fod yn decach?

Crynodeb o'r ymatebion

<u>b) Tirfeddianwyr a rheolwyr</u>

c) Sut allem ni newid ein hargymhellion i fod yn decach?

Annog buddsoddiad mewn arferion rheoli coedwriaeth syml.

Darbwyllo'r cyhoedd a thirfeddianwyr preifat bod yr hyn y mae'r Cynulliad yn ei gynnig yn fuddiol.

Sylweddoli bod rhaid talu am goedwigaeth beth bynnag fo'r amcan.

Peidio â pheryglu hawliau eiddo.

Mae angen ystyried manteision coedwigaeth fasnachol a'r ffaith bod rheoli coetiroedd yn newid yn ôl y ffasiwn. Cafodd SS eang ei orwneud ond bellach mae ffafrio rhywogaethau brodorol yn chwannog i'r broblem â gwiwerod llwyd.

Darparu cynllun grant symlach na CGG.

Heb drafod a chytuno'n helaeth â pherchnogion coetiroedd preifat, ffermwyr a thirfeddianwyr eraill, mae'n bosibl y bydd llawer o'ch rhagdybiaethau a'ch cynigion yn effeithio ar y bobl hyn heb roi'r cyfle iddynt ymateb. Nid wyf yn siŵr bod y math hwn o 'ymgynghori' wir yn ymgynghori, a'i fod yn debycach i 'gymeradwyaeth' ar gyfer eich cynigion. Mae ymgynghori'n mynnu rhannu syniadau a newid a chyfaddawdu er mwyn dod i gytundeb.

Caniatáu rhywogaethau sengl a choedwigoedd o fewn y canllawiau presennol a'r Safon Coedwigaeth, sy'n gwneud digon i gynyddu gwerth ecolegol a hamdden coetiroedd.

b) Y Sector Masnachol / Busnes a'u gweithwyr

c) Sut allem ni newid ein hargymhellion i fod yn decach?

Peidio ag effeithio ar y sector busnes gyda choetiroedd "naturiol" llai cynhyrchiol. Fel y pren dominyddol, ni ddylai CCC fabwysiadu strategaeth sy'n "afresymol yn fasnachol".

Cydnabod pwysigrwydd cynhyrchu a phrosesu pren i economi Cymru. Gellir gwneud gwelliannau a manteision cymdeithasol wrth gynhyrchu pren conifferaidd. Cydnabod y manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a ddarperir gan goetiroedd cynhyrchiol wedi'u rheoli'n dda.

Cadw rhai coetiroedd at ddibenion masnachol/amgylcheddol – ni ellir gwneud popeth ym mhob coetir. Peidiwch â chreu polisi sy'n seiliedig ar sut y gallai coedwig wedi bod yn ystod cyfnod penodol mewn hanes.

Bydd prosiectau a swyddi mewn perygl os caiff grantiau eu dargyfeirio oddi wrth goedwigaeth cynhyrchu. Bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer yr holl amcanion.

Gwella grantiau ar gyfer plannu conifferau.

Cael gwared ar y system reoli "ddiofyn" ar gyfer coedwigaeth gorchudd parhaus.

Darparu syniadau mwy ymarferol ar sut y gall y diwydiant oroesi.

Dylai CCC ganolbwyntio ar sefydlu a chynnal coetiroedd gydag amcanion penodol.

Cysylltu â mwy o gwmnïau sy'n gweithio yn y sector a galluogi gweithwyr i ymateb.

b) Cymunedau

c) Sut allem ni newid ein hargymhellion i fod yn decach?

Ymgynghori'n well â'r gymuned.

Ystyried adolygu'r cynigion ar gyfer ffermydd gwynt ar dir CCC.

Cefnogi busnesau presennol fel nad yw trigolion lleol dan anfantais gan hwyrddyfodiaid sydd â chymorth grant.

b) Pobl (cyffredinol)

b) Marchogwyr c) Ymrwymo i strategaeth sy'n trin marchogwyr yn gyfartal i gerddwyr a beicwyr ym mhob ardal goedwigaeth.

b) Pobl ifanc c) Gallai fod yn ddefnyddiol rhoi crynodeb o'r wybodaeth i blant/ysgolion fel y byddant yn gallu rhoi sylwadau ar yr hyn sy'n effeithio ar eu dyfodol.

b) Pobl y tu allan o'r ardaloedd sy'n cael eu targedu ar gyfer grantiau a'r rheiny nad ydynt yn cael eu hystyried yn bobl leol c) Bydd angen targedu grantiau felly bydd anghydraddoldeb.

b) Y rheiny sydd â phroblemau iechyd meddwl. c) Rhoi mwy o bwyslais ar effeithiau buddiol coetiroedd a choed ar iechyd meddwl.

b) Pobl sydd dan anfantais amgylcheddol drefol a phobl wledig dlawd – c) Cynhwysiad a gweithio ar y cyd.

C 25 Rhowch sylwadau ar unrhyw agwedd arall ar y cynigion nas cyfeiriwyd atynt uchod.

Crynodeb o'r ymatebion

Holodd nifer o'r ymatebwyr beth sydd wedi digwydd i drydydd amcan strategol *Coetiroedd i Gymru* 2001, sef "gwneud Cymru yn lleoliad ar gyfer rhai o'r diwydiannau coedwigaeth gorau yn y byd". Roeddent yn cydnabod y newid yn yr hinsawdd, ond o'r farn bod angen mwy o ymchwil a thystiolaeth ar ei effaith yn y dyfodol. Roedd pryder bod angen ystyried rôl bresennol coed a choetiroedd cyn gwneud unrhyw newidiadau mawr, a allai effeithio ar gynhyrchu pren yn y dyfodol.

Unwaith eto, pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr yr angen i reoli gwiwerod llwyd.

Ni chrybwyllwyd costau cyflawni'r canlyniadau arfaethedig. Roedd ymdeimlad na ddylai'r strategaeth fod yn rhestr o ddymuniadau anghyraeddadwy.

Os caiff y cyhoedd eu cynnwys yn eu coetiroedd, mae angen iddynt gymryd rhan mewn cynllunio, rheoli a datblygu polisïau, nid ymgynghori â nhw'n unig. Mae angen dangos tystiolaeth bod eu sylwadau wedi'u hystyried.

Ni roddwyd digon o sylw i bren gwastraff a gweddillion torri coed fel ffynhonnell o ynni adnewyddadwy.

Nid oedd digon o ffocws ar rywogaethau a warchodir a'r mesurau y dylid eu cymryd i'w gwarchod. Dylid pwysleisio'r angen am gynlluniau rheoli integredig ar gyfer y rhywogaethau hyn.

Nid oedd unrhyw sôn am ddefnyddio cemegau.

Dylid cynnwys ffermydd gwynt yn y strategaeth gan y bydd nifer o ddatblygiadau wedi'u lleoli yng nghoetiroedd y Cynulliad.

Bydd angen i ddatblygu cynllun gweithredu 5 mlynedd a fframwaith monitro gysylltu â phroses y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yng Nghymru.

Lle cyfeirir at "bywyd gwyllt coetiroedd" yn y cynigion, a ellir newid hyn i "bioamrywiaeth coetiroedd"?

Bydd yn bwysig cydweithio â Grwpiau Ecosystem Cymru newydd â'r grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau i gael mynediad at arbenigedd a gwybodaeth ac i helpu i ddod o hyd i'r safleoedd gorau i fodloni'r amcanion a'r targedau bioamrywiaeth a restrwyd yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am i CGG gael ei adolygu a'i symleiddio.

Mae angen gwahaniaethu rhwng coetiroedd "masnachol" a choetiroedd "naturiol". Mae gan y ddau ohonynt ddibenion hollol wahanol – mae cynigion yr ymgynghoriad yn eu cyfuno'n un peth unffurf.

Pryder ynghylch coed trefol a'u rheoli yn y dyfodol.

Mynegwyd pryder bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio'n rhy lym ar yr amcan o gynyddu coedwigaeth yng Nghymru heb ei hystyried yng nghyd-destun polisïau eraill. Gallai rhai

cynigion wrthdaro â pholisïau NCT 8, y mae gan goedwigoedd yng Nghymru rhan bwysig i'w chwarae ynddo. Hefyd, ni ystyriwyd y cyfleoedd i feithrin partneriaethau er mwyn gwella coedwigaeth a gwaith amwynderau.

Ni chrybwyllwyd cerbydau oddi ar y ffordd yn yr ymgynghoriad.

Ni chrybwyllwyd defnyddio coetiroedd y Cynulliad at ddibenion eraill fel tai a chwarela.

Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryder ynghylch yr awgrym bod y gweinidog wedi mynnu diwygio'r polisi er mwyn bodloni dyheadau dogfen Cymru'n Un, sef maniffesto gwleidyddol sy'n dweud dim am goedwigaeth. Ai hyn yw dechrau gwleidyddoli polisïau coetiroedd yng Nghymru? Er bod gan goedwigaeth economi gwleidyddol, mae ei gwneud yn destun adolygiadau gwleidyddol ar ôl pob etholiad yn debygol o niweidio cyfanrwydd hirdymor strategaethau sy'n weledigaeth ar gyfer 50 mlynedd, nid 3-4 blynedd cyfnod gwleidyddol.

Croesawyd y gydnabyddiaeth o goetiroedd fel mannau tir glas pwysig mewn ardaloedd trefol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y strategaeth ddiwygiedig yn cael ei chydnabod a'i gweithredu gan Awdurdodau Unedol mewn polisïau cynllunio trefol. A yw Cynlluniau Datblygu Lleol yn darparu dull digonol o gyflawni hyn?

Byddai'n ddefnyddiol pe byddai cyfeiriad at fwy o wybodaeth am y rhaglen Plant!

Dylai Coedwig Genedlaethol Cymru fod yn ddarn penodol o dir y dylai LlCC a CCC ei henwi.

Nid oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys unrhyw sylwadau na chyfiawnhad dros pam y mae'r Cynulliad yn berchen ar ganran mor uchel o'r coedwigoedd conifferaidd. Gallai hyn rwystro diwydiant coedwigaeth cystadleuol a dylid ystyried perchnogaeth coedwigoedd. Mae llawer o alw am goetiroedd masnachol yng Nghymru ar hyn o bryd gan fuddsoddwyr. Byddai gwerthu coetiroedd y Cynulliad yn rhyddhau cyllid i'w ail-fuddsoddi mewn coetiroedd cymunedol ac yn darparu perchnogaeth ac ymagwedd reoli fwy amrywiol. Gallai newidiadau strategol gan LlCC gael effaith fawr ar y diwydiant, gan mai CCC yw'r prif gyflenwyr pren.

Amlygwyd pwysigrwydd dŵr mewndirol yng nghoetiroedd y Cynulliad a'r angen i'w gydnabod fel ased gwerthfawr.

Gofynnwyd am fwy o gydnabyddiaeth yn y strategaeth o werth saethu anifeiliaid fel cymhelliant ar gyfer rheoli coetiroedd.

C26. O ran yr ymgynghoriad hwn, nodwch eich barn am y canlynol

26	O ran yr ymgynghoriad hwn, nodwch eich barn am y canlynol		Gwael iawn	Gwael	Da	Da iawn	SGÔR CYMEDRIG
26a	Y broses ymgynghori'n gyffredinol	Nifer	6	34	110	14	2.8
		%	4%	21%	67%	9%	
26b	Hygyrchedd gwybodaeth am yr ymgynghoriad	Nifer	6	24	107	25	2.9
		%	4%	15%	66%	15%	
26c	Eglurder a chyflwyniad y ddogfen ymgynghori	Nifer	7	49	88	22	2.8
		%	4%	30%	53%	13%	
26d	Naws a chynnwys y ddogfen ymgynghori yn gyffredinol	Nifer	13	49	89	16	2.6
		%	8%	29%	53%	10%	

26e	Rhwyddineb ymateb i'r ymgynghoriad	Nifer	3	22	115	29	3.0
		%	2%	13%	68%	17%	
26f	Lefel yr adborth rydym yn bwriadu ei roi i'r rhai y byddwn yn ymgynghori â nhw	Nifer	6	34	110	14	2.8
		%	4%	21%	67%	9%	

Roedd rhai pobl o'r farn y dylai CCC fod wedi cynnal digwyddiadau cyhoeddus gyda sesiwn cwestiwn ac ateb, a digwyddiad i roi gwybod am y canlyniadau a chynnal gweithdai er mwyn asesu'r adborth a'r sylwadau uniongyrchol.

Roedd rhai pobl o'r farn y dylai'r ddogfen gael ei hysgrifennu mewn Saesneg Clir ac y byddai wedi cael budd o fod yn rhydd rhag jargon -

Mwy o eglurhad o'r fforymau ac ati.

Roedd llawer o bobl o'r farn bod yr holiadur yn anodd ei lenwi a byddent wedi hoffi gallu defnyddio sillafydd a'r offerynnau fformadu.

Roedd rhai pobl o'r farn bod y broses ymgynghori'n llawn cwestiynau arweiniol a datganiadau.

Roedd llawer o bobl yn ansicr ynghylch sut y byddai 26**F -** (lefel yr adborth i ymgyngoreion) yn cael ei gyflawni.

Roedd rhai pobl yn ei chael yn anodd ateb y cwestiynau ar y sail eu bod yn cytuno neu'n anghytuno, gan na ellir ateb llawer o'r cwestiynau'n gywir yn y fformat hwnnw.

Roedd rhai pobl o'r farn bod llawer o'r cwestiynau yn gwestiynau arweiniol. Nid yw hyn yn rhoi llawer o gyfle i ymgynghori'n gywir. Mae'n teimlo bod y penderfyniad wedi'i wneud eisoes.

Roedd rhai pobl yn poeni ynghylch sut y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei ddehongli. Pwysoliad y canlyniadau e.e. ni ddylid trin yr holl ymatebion yn gyfartal, a dylid rhoi mwy o ystyriaeth i ymatebion gan sefydliadau neu unigolion sydd â gwybodaeth am y pwnc na'r rheiny sydd â diddordeb ynddo'n unig.

Mynegwyd rhai pryderon ynghylch mynediad at y rhyngrwyd a chyflymder lawrlwytho a allai fod wedi achosi rhai problemau. Hefyd, sut y cafodd pobl wybod am yr ymgynghoriad os nad oedd ganddynt fynediad at gyfrifiadur.

6 Sylwadau cyffredinol

Ei gadw'n fyrrach.

Amlinellu'r ffactorau sy'n rheoli'r polisi ym mhob adran.

Mae ymgynghori trwy'r cyfrwng hwn yn well o lawer na thrwy gyfarfodydd, sy'n gostus, yn gofyn amser ac yn cael eu mynychu gan bawb y byddwch yn disgwyl eu gweld, gan gyfyngu ar y wynebau newydd.

Mae angen nodi diddordeb/cysylltiad yr ymatebwyr â choedwigaeth yng Nghymru, p'un a ydynt yn gerddwyr, yn gwylio adar neu'n goedwigwyr. Mae rhannau o'r cwestiynau canlynol yn wleidyddol gywir ac yn annymunol i ymatebwyr dilys mewn ffordd e.e. nid wyf yn dod o Gymru, ond rwy'n gweithio yng Nghymru, yn berchen ar goedwig yng Nghymru ac yn cefnogi'r tîm rygbi – lle mae hynny yn fy rhoi i yn y drefn flaenoriaeth?

Cael gwared ar rôl y Comisiwn Coedwigaeth fel darparwyr polisi coedwigoedd LlCC er mwyn gwahanu hynny oddi wrth y gwaith o reoli'r ystad goedwigoedd genedlaethol a gweinyddu cymorth grant a gorfodi deddfwriaeth coedwigoedd.

Rydym yn ddiolchgar iawn am ddogfen mor gadarn a brwdfrydig, yr hoffem ei chefnogi, ac am y modd prydlon yr anfonwyd copïau ohoni atom.

Nid yw'r da a'r gwael yn caniatáu i mi ddweud iawn, ond nid yn wych! Colofn rhwng 2/3.

Mae'r broses ymgynghori yn wael iawn. Rwyf wedi gweithio yn y diwydiant coedwigoedd yng Nghymru ers 30 mlynedd, ac nid wyf erioed wedi teimlo fy mod wedi cael rhoi fy marn am sut y dylai'r coedwigoedd ddatblygu. Ni ddylid caniatáu i Gymru ddod yn ardal ar gyfer twristiaeth yn unig. Mae angen iddi gynhyrchu rhywbeth a does dim byd gwell na phren.

Yn realistig, mae amseriad y cyfnod ymgynghori dros yr haf wedi lleihau'r amser sydd ar gael – osgowch fisoedd yr haf.

Darparwch fwy o ddata a manylion am yr hyn sy'n cael ei gynnig (e.e. symiau sydd ar gael ar gyfer grantiau, rhywogaethau/cynefinoedd ffocal ar gyfer cadwraeth ac ati). Gofynnwch fwy o gwestiynau yn hytrach na gofyn i ni flaenoriaethu syniadau CCC.

Mae llawer yn y sector coedwigaeth a chynnyrch coedwigoedd, gan gynnwys coedwigwyr proffesiynol, wedi'i chael yn anodd ymateb i rai o'r cwestiynau gan nad ydynt yn gyfarwydd â phynciau arbenigol penodol, a heb os, mae hyn wedi cyfyngu ar nifer yr ymatebion gan rai rhannau o'r diwydiant. Mae wedi gofyn llawer o amser i lenwi'r ddogfen hon, ac mae amser yn beth mwyfwy gwerthfawr i'r rheiny yn y sector preifat. Mae'r cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn cael ei werthfawrogi, ond gallai dogfen symlach fod wedi arwain at fwy o ymgysylltiad.

Atodiad 1

Rhestr o'r ymatebwyr – yn nhrefn yr wyddor

Afonydd Cymru (Wales Rivers)
AHNE Bryniau Clwyd
Aitchesse Ltd. Arkady Ltd. Stakis Forestry, Y Bartneriaeth Coedwigaeth
AJ Charltons
Alternative Woodland Management
Allt Pwll Priddog, Llanymddyfri
Andrew Bronwin & Co
AOM Associates
ARC Woodlands Ltd.
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
AW Jenkinson Forest Products
BASC (Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain)
BSW Timber
Bwlch Sais
C Lewis Timber Haulage
CADW
Cambrian Woodlands Ltd
Canolfan Defnydd Tir Amgen (CALU) – Prifysgol Bangor
Canw Cymru
CBS Castell-nedd Port Talbot
CBS Wrecsam
CCGC
Cerddwyr Cymru
Charles Ransford & Son Ltd
Clifford Jones Timber Ltd
Coed Cadw
Coed Cymru
Coed Elwy
Coed Hay
Coed Lleol
Coedwig Gymunedol Long Wood
Coetir Cymunedol Blaen Bran
Coetiroedd Trallwm
Confor
Corwen Forestry Ltd.
Cyfeillion Gwiwerod Coch Môn
Cymdeithas Cerbydau Ceffyl a Marchogaeth Dyfnant ac Efyrnwy
Cymdeithas Eryri
Cymdeithas Moch Daear Clwyd
Cymdeithas Mynyddoedd Cambria
Cymdeithas Planhigfeydd Coed Powys
Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
Cymunedau yn Gyntaf Abertyleri
Cynghrair Twristiaeth Cymru
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir Gwynedd
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Tref Doc Penfro
D Rees Forest Nurseries
David Rice Forestry
Dinas a Sir Abertawe
Edistone Limited
ETC Sawmills
Euroforest
FE Woodlands

Forestry Direct
Fountains plc
Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu
Golygfa Gwydyr
Groundwork MT a RhCT
Groundwork yng Nghymru
Grŵp Aberystwyth Gwyrddach
Grŵp Amgylcheddol Cefn Gwlad Castell-nedd Port Talbot
Grŵp Coedwigaeth Gorchudd Parhaus
Grŵp Gweithredu Cefn Croes
Gwersyll Ieuenctid Cristnogol Sant Madog
Hugh Wheeldon & Co
Maelor Forest Nurseries
Melin Lifio a Ffensys Glasfryn
Menter Ceirw
MG Harvesting
Miller Land Management
NFU Cymru
Parciau Cenedlaethol Cymru
Partneriaeth Amgylcheddol
Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Pathfinder Renewable Energy
Paul Raymond-Barker & Co
Pembs CPRW
Peter Chambers Ltd.
Pontrilas Group Packaging
Pontrilas Timber
Rob Marsh Woodland Services
RSPB
RWE Npower
Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig
Sefydliad Tir Gwyllt Cymru a'r Rhwydwaith Tir Gwyllt
SJ Archer & Son Timber Haulage
Small Wood Services
Small Woods Association
Softwood Services
Steve Lloyd Timber
Sustainable Forest Management
Tanwydd Pren Cymru
Terifi Timber Products Ltd
The Very Efficient Heating Company
Tilhill Forestry Ltd
Tir Coed
Tubex Ltd.
UKFPA
Undeb Amaethwyr Cymru
UPM Tilhill
WEL
Woodknowledge Wales
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Ymddiriedolaeth Coetir Cymunedol Coed y Bobl
Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod
Ymddiriedolwyr Ystâd Felinfach
Ysgol Goedwig Cymru
Ystad Cefn Coch

Hefyd, cafwyd 104 o ymatebion gan unigolion nad oeddent yn gysylltiedig ag unrhyw grŵp neu sefydliad penodol.